This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

+ *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.

+ *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.

+ *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.

+ *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at `http://books.google.com/`

Celt
5021
33.30

HOUGHTON LIBRARY
HH 2HSF A

S. Evans, Zoar . Pregeth . 1845

Google

Celt 5091.33.30

Harvard College Library

BOUGHT WITH MONEY
RECEIVED FROM THE
SALE OF DUPLICATES

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Cover

Digitized by Google

Digitized by Google

TYSTIOLAETH GAIR DUW

AM

ATHRAWIAETH Y DRINDOD,

MEWN

PREGETH,

GAN

S. EVANS, Zoar.

1 Cor. 2, 13.

Can gyd-farnu pethau ysbrydol â phethau ysbrydol.

CAERFYRDDIN:

ARGRAFFWYD GAN J. EVANS, YN HEOL-Y-FARCHNAD.

1815.

Digitized by Google

FY NARLLENYDD,

NI ddarfu i mi ddim cymmeryd arnaf atteb dim a welais i waith erioed o wahanol fath yn y tudalenau canlynol; am hyny na ddysgwyl fy mod yn ymdrin â'u gwaith hwy: ond wrth glywed a gweled cymmaint o resymau yn cael eu harfer o bob ochr i'r ddadl, meddyliais y gallasai ei fod yn fwy defnyddiol i gasglu tystiolaeth y Gair ar y pen hwn, a gadael heibio ymgynghori â chig a gwaed, gan na allai llinynau meidrol ddim mesur moroedd anfeidrol: gid oedd dim eisiau i mi ychwaith grynoi yr holl destunau ag sydd ar y penau canlynol, gan fod un gair o eiddo y nefoedd yn well nâ mil o eiddo y ddaear. Mae yn bosibl y bydd i rai ddywedyd am y testun a gymmerais, nad yw ef ddim o ddwyfol roddiad. Nid oes neb yn gwadu nad oes rhai copiau Groeg heddio; pa un ai diofalwch neu ddrwg-ewyllys barodd hyny, ni's gwyddom; ond y mae yn eglur fod y testun hwn yn y copiau ag oedd yn yr ail a'r drydedd oes, ac yn cael ei arfer fel y rhanau ereill o'r Testament Newydd; ac nid oes achos ammheuaeth y'nghylch ei ddwyfol roddiad. *Gwel Dr. Hammond, L. Brug. nob. in Loc. &c.* At yn wir, nid yw yr athrawiaeth hon yn ymddibynu dim ar un testun unigol, gan fod yr holl ysgrythyrau yn dwyn tystiolaeth iddi. Yr wyf, gan hyny, yn gorchymyn y sylwadau canlynol i ofal Duw ac i'th sylw dithau.

Yr wyf, yr eiddot yn y rhwymau goreu,

S. EVANS.

Merthyr-Tydfil,
Medi 5ed, 1815.

Digitized by Google

HARVARD COLLEGE
FEB 6 1931
LIBRARY

Duplicate ceremony

PREGETH, &c.

I IOAN 5, 7.

OBLEGID Y MAE TRI YN TYSTIOLAETHU YN Y NEF; Y TAD, Y GAIR, A'R YSBRYD GLAN; A'R TRI HYN UN YDYNT.

MAE yr apostol wedi son am wir ffydd, a'i natur yn yr enaid sydd wedi ei meddiannu hi, sef gorchfygu y byd, fel nas gall ef trwy unmoddion ennill yr enaid ar ei ol oddiwrth Grist, yna y mae yn gofyn, "Pwy yw yr hwn sydd yn gorchfygu y byd, ond yr hwn sydd yn credu mai Iesu yw Mab Duw?" wrth hyn y mae ya hawdd meddwl, fod awdwr yr epistol hwn yn barnu fod yn anmhosibl i neb orchfygu y byd, heb ffydd wirioneddol yn Iesu Grist, yr hwn a ddaeth trwy ddwfr a gwaed; nid yn unig trwy ddwfr ei fedydd, Mat. 3, 16. ond hefyd trwy ddwfr a gwaed wrth farw ar y groes, Ioan 19, 34, 35. ac yn gyflawn sylwedd yr holl aberthau gwaedlyd, a dwfr y golchiadau dan y ddeddf seremoniol; fe ddyg-

Digitized by Google

odd yr Ysbryd tragywyddol dystiolaeth, mai hwn yw y gwir Fessiah, trwy gymmwyso rhinweddau ei farwolaeth at gyflyrau miloedd er iechydwriaeth, a thrwy addasu gweinidogion blaenaf yr efengyl, â gallu i wneud llawer o wrthiau rhyfeddol yn enw Iesu; ac yn y testun y mae efe yn dywedyd fod tri o dyston yn y nef, o'r gwirionedd mai Crist yw yr unig ffordd, a'r gwirionedd, a'r bywyd; ac nad oes neb yn dyfod at y Tad, ond trwyddo ef, Ioan 14, 6. Fe ddygodd y Tad dystiolaeth iddo pan ddywedodd, Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd, Mat. 3, 17. pen. 17, 5. dygodd y Tad hefyd dystiolaeth iddo, trwy ei adgyfodi ef o feirw, Eph. 1, 20. Rhuf. 1, 4. Yr ail berson sydd yma yn rhoddi ei dystiolaeth yw y Gair, sef Crist, Ioan 1, 1. Fe dystiolaethodd ef yn eglur am dano ei hun, Ioan 10, 30, Pen. 4, 26. yr oedd ef hefyd yn tystiolaethu am dano ei hun, trwy y gweithredoedd nerthol y rhai oedd ef yn gyflawni weithiau ger bron gelynion, Ioan 11, 44, 45, 46. ac yn neilltuol, wrth adgyfodi ei hun o feirw, Ioan 2, 19. Yn drydydd, fe ddygodd yr Ysbryd Glân dystiolaeth, mai Iesu oedd yr Immanuel addawedig, trwy ddisgyn arno wrth yr lorddonen, Luc 3, 22. ac yn ei waith yn arddel y genadwri ar ddydd y pentecost, Act. 2, 37. a miloedd o weithiau ar ol hyn, nes oedd y pell yn cael ei ddwyn yn agos, trwy waed Crist, Eph. 2, 13. Gallwn yn ddigryn orphwys ar y tystiolaethau hyn; canys nid yw yn bosibl i'r Tad fod yn gelwyddog, Heb. 6, 17. Y gwirionedd yw Iesu Grist, gan hyny ni ddywedodd ef ddim ond gwir, Ioan 14, 6; ctto, Ysbryd y gwirionedd yw yr Ysbryd Glân, Ioan 17, 17. Oblegid hyn, rhaid bod yr hyn a lefarodd ef yn wir i gyd, ac nid yw yn un cyfeiliornad i alw yr ysgrythyrau yn dystiol-

Digitized by Google

aeth yr Ysbryd hwn, canys dynion santaidd Duw a lefarasant fel y cynhyrfwyd hwy gan yr Ysbryd Glân, 2 Pedr 1, 21. Am hyn bydd i'r gair ateb yr holl ddybenion, pa rai ei hanfonwyd ef o'u plegid, Esa. 55, 10, 11. Ond gan mai meddwl sylwi wyf yn bresemol, ar yr hyn a elwir yn gyffredin, yn *Athrawiaeth y Drindod*, mi a gymeraf y drefn ganlynol i ymdriu â'r pwnc pwysfawr hwn:

I. Fod yr ysgrythyrau yn ein dysgu ni, nad oes ond un Duw.

II. Fod yr un ysgrythyrau yn ein dysgu fod lluosogrwydd yn hanfodol berthynu i'r un Jehofah hwn.

III. Fod yr ysgrythyrau yn cyfyngu y lluosogrwydd hwn i'r rhif Tri.

IV. Mai nid lluosogrwydd o enwau neu swyddau, ond lluosogrwydd o bersonau, yn gwneud i fynu yr un Hanfod, a feddylir yn y gair.

V. Fod yr ysgrythyrau yn ein dysgu ni, fod goruchel ac anfeidrol ddwyfoldeb yn hanfodol i'r Mab, a'r Ysbryd Glân, yn gystal ag i'r Tad.

I. Fod yr ysgrythyrau yn ein dysgu nad oes ond un Duw.

Clyw, O Israel, yr Arglwydd ein Duw ni, sydd un Arglwydd, Deut. 6, 4. Marc 12, 29. Na fydded it' ddduwiau ereill ger fy mron i, Exod. 20, 3. Na fydded ynot ddaw arall, ac nac ymgryma i ddaw arall, Psal. 81, 9. Fel hyn y dywed yr Arglwydd, Brenin Israel a'i waredydd, Arglwydd y lluoedd, Myfi yw y cyntaf, diweddaf ydwyf fi hefyd; ac nid oes Duw ond myfi, Esa. 44, 6.

Digitized by Google

Ti yn unig wyt Arglwydd, Neh. 9, 6. Fel y gwypont mai tydi, yr hwn yn unig wyt Jehofah wrth dy enw, wyt Oruchaf ar yr holl ddaear, Psal. 83, 18. Canys ydwyt fawr, ac yn gwneuthur rhyfeddodau; ti yn unig wyt Dduw, Psal. 86, 10. A'r Arglwydd a fydd yn frenin ar yr holl ddaear: y dydd hwnw y bydd un Arglwydd, a'i enw yn un, Zech. 14, 9. Am fwyta gan hyny o'r pethau a aberthir i eilunod, ni a wyddom nad yw eilun ddim yn y byd, ac nad oes un Duw arall onid un, 1 Cor. 8, 4. A chyfryngwr nid yw i un, ond Duw sydd un, Gal. 3, 20. Credu yr wyt ti mai un Duw sydd, da yr wyt ti yn gwnenthur; y mae y cythreuliaid hefyd yn credu ac yn crynu, Iago 2, 19. sef yn credu mai un Duw sydd, gwel Marc 1, 24. O Arglwydd, nid oes neb fel tydi, ac nid oes Duw ond tydi: yn ol yr hyn oll a glywsom â'n clustiau, 1 Cron. 17, 20. Gwelwch bellach mai myfi, myfi yw efe, ac nad oes Duw ond myfi; myfi sydd yn lladd ac yn bywhau, myfi a archollaf, ac mi a feddyginiaethaf, ac ni bydd a achub o'm llaw, Deut. 32, 39. Mae yr hyn a enwyd o'r gair santaidd, yn profi yn amlwg nad oes ond un Duw, yr hwn a greodd bob peth, Gen. 1, 1, ac sydd yn cynnal pob peth trwy air ei nerth, Heb. 1, 3. Y mae y Duw hwn yn llanw pob lle, nefoedd, daear, morodd, ac uffern, ar yr un waith, Psal. 139, 8—11. fel y mae y gofyniad (adn. 7) yn addas iawn, "I ba le yr âf oddiwrth dy Ysbryd, ac i ba le y ffoaf o'th wydd?" Wrth sylwi mai ynddo ef yr ydym ni yn byw, yn symud, ac yn bod, Act. 17, 28. hawdd y gallwn benderfynu nad oes un lle i ymguddio o'i olwg ef; gan mai yr un ffunud yw y tywyllwch a'r goleuni iddo, ac y bydd i'r nôs oleuo fel dydd o'i flaen ef, Psal. 139, 12. Y Jehofah hwn a'n creodd, ac nid ni ein hunain; ei bobl ef ydym,

Digitized by Google

a defaid ei borfa, Psal. 100, 3. Canys efe a wnaeth y nefoedd, nefoedd y nefoedd, a'u holl luoedd hwynt, y ddaear a'r hyn oll sydd arni, y moroedd a'r hyn oll sydd ynddynt; efe sydd yn eu cynnal hwynt oll; a llu y nefoedd sydd yn ymgrymu iddo, Neh. 9, 6. Mae yn amlwg wrth y fath ysgrythyrau, nad oes ond un Hanfod Dwyfol, yr hwn sydd yn deilwng wrthrych gwasanaeth ac addoliad ei holl greaduriaid am byth; hwn yw yr achos dechreuol o bob creadur gweledig neu anweledig i ni, ïe, y mae hwn mor alluog, fel y mae arwyddion o'i anfoddlonrwydd yn peri i bysg y môr, ac ehediaid y nefoedd, bwystfilod y maes, a phob ymlusgiad a ymlusgo ar y ddaear grynu ger ei fron ef, Ezec. 38, 20. Gochelwn ni rhag byw a marw dan ei anfoddlonrwydd ef; yma gallwn ofyn gydâ Dafydd, "Pa Dduw sydd fel ein Duw ni, yr hwn sydd yn preswylio yn uchel"? Psal. 113, 6.

II. Fod yr un ysgrythyrau yn ein dysgu, fod lluosogrwydd yn hanfodol berthynu i'r un Jehofah hwn; nid lluosogrwydd o dduwiau; byddai hyny yn gabledd, gan fod yr un ysgrythyrau a enwyd, yn nghyd â llaweroedd ereill, yn ein dysgu ni i'r gwrthwyneb; etto y mae yr ysgrythyr, yr hon ni's gellir ei thori, Ioan 10, 35. yn tystiolaethu fod lluosogrwydd o bersonau yn yr un Duw hwn, yn yr un Jehofah goruchel. Fe welodd yn dda amlygu ei hun i ni yn ngair y gwirionedd, yn y dreſn ganlynol; "Duw hefyd a ddywedodd, Gwnawn ddyn ar ein delw ni, wrth ein llun ein hunain," Gen. 1, 26. Nid wrth un creadur, o holl luoedd nefoedd na daear y dywedodd ef hyn: oblegid nid ar lun un o honynt hwy y gwnaeth efddyn. Canys yn y dydd y creodd ef ddyn, ar lun Duw y gwnaeth efe ef, Gen. 5, 1.

Digitized by Google

Hefyd yr Arglwydd Dduw a ddywedodd, Wele, y dyn sydd megis un o honom ni, yn gwybod da a drwg, Gen. 3, 22. Deuwch, disgynwn, a chymmysgwn yno eu hiaith hwynt, Gen. 11, 7. Dywedodd yr Arglwydd wrth fy Arglwydd, Eistedd ar fy nëau-law, hyd oni osodwyf dy elynion yn fainc i'th draed, Psal. 110, 1. Mae y geiriau rhyfeddol hyn yn cael eu hail-adrodd bum' gwaith yn y Testament Newydd, Mat. 22, 44. Marc 12, 36. Luc. 20, 42. ac yn y ddau le ganlynol y maent yn cael eu profi gan Paul a Phedr, yn ymadrodd wedi ei lefaru gan y Tad wrth y Mab, Heb. 1, 13. lë, gwrandawed pawb, fel y mae Pedr yn profi hyn ger bron y dyrfa; heb neb yn rhyfygu anturio ei ammau ef: oblegid ni ddyrchafodd Dafydd (medd ef) i'r nefoedd; ond y mae efe yn dywedyd ei hun, Yr Arglwydd a ddyddywedodd wrth fy Arglwydd, Eistedd ar fy nëau-law, hyd oni osodwyf dy elynion yn droedfainc i'th draed; am hyny gwybydded holl dŷ Israel yn ddiogel, ddarfod i Dduw wneuthur yn Arglwydd ac yn Grist, yr Iesu hwn a groeshoeliasoch chwi, Act. 2, 34—36. Y mae y geiriau hyn wedi cael eu llefaru, i'r dyben i brofi mai y Tad sydd wedi dywedyd felly wrth y Mab; drachefn, dywedir fod y Tad wedi darostwng pob peth dan ei draed ef, ac wedi ei roddi ef goruwch pob peth yn ben i'r eglwys, Eph. 1, 22; am hyny mae ef yn eistedd ar ddëau-law y Mawredd, yn eiriol dros ei bobl, 1 Ioan 2, 2. Y mae ei fod yn eistedd, yn arwyddocau ei fod wedi gorphen y gwaith; ac y mae genym ei dystiolaeth odidog ef ei hun ar y pen hwn; "Mi a'th ogoneddais di ar y ddaear; mi a gwblëais y gwaith a roddaist i mi i'w wneuthur," Ioan 17, 4. Fe wyddai yr Iesu, fod pob peth angenrheidiol at ein prynedigaeth ni, wedi ei orphen, cyn iddo ogwyddo ei ben

Digitized by Google

ar y groes, Ioan 19, 28. Am fod y gwaith wedi ei gwbl orphen ar y ddaear, y mae ef yn ymddangos yn awr ger bron Duw trosom ni, Heb.9,24, i ddwyn yn mlaen y gwaith o eiriol ar sail y iawn a dalodd, ac i drefnu achosion ei deyrnas, hyd nes byddo pob gelyn wedi ei osod yn droed-fainc i'w draed, 1 Cor. 15, 25. yna fe rydd y deyrnas i fynu i'r Tad, fel y byddo Duw oll yn oll; etto bydd y lluosogrwydd hwn i barhau byth yn y Jehofah anfeidrol; canys myfi yr Arglwydd ni'm newidir, Mal. 3, 6. Gydâ'r hwn nid oes gyfnewidiad, na chysgod troedigaeth, Iago 1, 17. Ni chyfnewid ef ddim yn ei hanfod, yn ei breswylfa, yn ei briodoliaethau, yn ei feddwl, nac yn nyben ei waith; gan hyny, ni bydd iddo ddim cyfnewid yn nhrefn y personau; ond bydd ef yn dragywyddol yr hyn ag yw ef yn awr. Llanwer ein calon â meddyliau parchus am dano. Nid yw yn angenrheidiol i ni yn y lle hwn, i ddwyn rhagor o ysgrythyrau, i brofi y lluosogrwydd a sylwyd uchod, gan y bydd i'r rhanau hyny, pa rai a gaf eu dwyn yn mlaen dan y sylwadau canlynol, i egluro yr un gwirionedd yn mhellach.

III. Fod yr ysgrythyrau yn cyfyngu y lluosogwydd hwn i'r rhif Tri. Y mae adnod y testun yn dra hynod ar y pen hwn. Gan fod yr apostol, dan gyfarwyddyd yr Ysbryd tragywyddol, wedi arfer y gair Tri; ac yn ganlynol yn dywedyd yn mlwg mai y Tad, y Gair, a'r Ysbryd Glân yw tri hyn; ac felly yn arfer y gair tri ddwywaith yn yr adnod; yr hyn sydd ddigon i brofi y gwirionedd: mae yn debyg i'r gwrthwynebwr deall hyn; am hyny nid oedd ganddo ond dyedyd, nad oedd y fath adnod yn y Groeg (y neb ewyllysio weled rhagor ar hyn, darllened waith

Dr. Mill ar y lle); ond nid rhaid i ni sylfaenu ein ffydd ar un gair, neu adnod unigol, gan fod yr un gwirionedd yn cael ei brofi mewn llawer o leoedd ereill, gwel Mat. 3, 16, 17. "A'r Iesu wedi ei fedyddio, a aeth yn y fan i fynu o'r dwfr: ac wele, y nefoedd a agorwyd iddo; ac efe a welodd Ysbryd Duw yn disgyn fel colomen (neu fel y disgynai colomen), ac yn dyfod arno ef. Ac wele lef o'r nefoedd yn dywedyd, Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd," Marc 1, 9, 10. Luc 3, 21, 22. etto y mae yr athrawiaeth hyn yn eglur, yn y commisiwn a roddodd ei wedi ei adgyfodiad, i'r apostolion; canys fe a orchymmynodd iddynt fedyddio yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân, Mat. 28, 19. Y mae y gwirionedd hwn mor amlwg, fel mae yn hawdd gweled yn y gair dwyfol, fod y Tri hyn yn cyduno i greu y byd, a'i holl luoedd; ïe, yr oeddent, ac y maent yn cyduno i ddwyn yn y blaen iechydwriaeth dragywyddol i bechaduriaid: yr oedd y farn o dri pherson, mor grediniol gan Paul, ac o'r fath bwys, fel ag yr oedd ef yn arferyd enwi y Tri yn niwedd-glo ei lythyrau 2 Cor. 13, 13.

IV. Mai nid lluosogrwydd o enwau, neu swyddau, ond Huosogrwydd o bersonau, yw gwneud i fynu yr un Hanfod a feddylir.

Yr wyf yn dewis y gair personau, oblegid fod yn hyn sydd mewn iaith gyffredin, ac yn enwedig yn ol iaith llyfr Duw, yn arwyddo personau i'n dryclu feddyliau ni, yn cael ei ddywedyd am y Tad, y Mab, ac am yr Ysbryd Glân. Pethau sydd yn perthyn i berson, neu bersonau, yw ewyllysiau, ymddiddan, dewis, gofyn, rhoddi, derbyn, anfon neu gael ei anfon; un yn rhoddi gwaith i'r llall a hwnw yn cwblâu y gwaith a dderbyniodd i'r

Digitized by Google

wneuthur; mae yn ddiammau y byddai yn yn-
ydrwydd o'r mwyaf, i ddywedyd fod neb yn
wneud pethau fel hyn, a gwadu eu personoliaeth
r yr un pryd; ac onid yw yn ynfydrwydd i
adu yr athrawiaeth o bersonau yn yr an Je-
ofah mawr, pan mae y digelwyddog Dduw
edi gosalu fod gair y gwirioneddd yn profodoli y
ethau uchod, neu rai o honynt, i bob un o'r
antaidd Dri; fel y caf sylwi yn mhellach yn y
ull canlynol.

1. Rhai ysgrythyrau sydd yn profi personol-
aeth y Tad, a'r Mab. Gofyn i mi (medd y Tad
rth y Mab), a rhoddaf y cenedloedd yn etifedd-
aeth i ti; a therfynau y ddaear i'th feddiant,
'sal. 2, 8. Canys felly y carodd Duw y byd,
el y rhoddodd efe ei unig-anedig Fab, fel na
holler pwy bynag a gredo ynddo ef, ond caffael
hono fywyd tragywyddol. Oblegid ni ddanfon-
dd Duw ei Fab i'r byd, i ddamnio y byd, ond
el yr achubid y byd trwyddo ef, Ioan 3, 16, 17.
Ond pan ddaeth cyflawnder yr amser, y danfon-
ld Duw ei Fab, wedi ei wneuthur o wraig, wedi
wneuthur dan y ddeddf; fel y prynai y rhai
edd dan y ddeddf, fel y derbyniem y mabwysiad,
Gal. 4, 4, 5. Fel yn ngornchwyliaeth cyflawn-
er yr amseroedd, y gallai (sef y Tad) grynhoi
n oghyd yn Nghrist, yr holl bethau sydd yn y
efoedd, ac ar y ddaear, ynddo ef, Eph. 1, 10.
n hyny mae Crist yn galw y Tad, yr hwn a'i
anfonodd ef, Ioan 8, 16. Ac wedi hysbysu gor
on y byd, ei fod wedi dyfod i wneuthur
yllys ei Dad. Iesu a ddywedodd wrthynt, Fy
wyd i yw gwneuthur ewyllys yr hwn a'm han-
nodd, a gorphen ei waith ef, Ioan 4, 34. pen.
30. ac a ddywedodd yn mhellach ei fod wedi
rphen y gwaith a roddodd y Tad iddo;

Digitized by Google

etto y mae yn dymuno ar y Tad, gan ddy-
wedyd, O Dad, gogonedda fi gydâ thi dy
hun, â'r gogoniant oedd i mi gydâ thi, cyn bod
y byd, Ioan 17, 5. A Philip a ddywedodd
wrtho, Arglwydd, dangos i ni y Tad, a digon y
i ni; yr Iesu a ddywedodd wrtho, A ydwyt gy-
hyd o amser gydâ chwi, ac nid adnabuost fi
Philip? Y neb a'm gwelodd i a welodd y Tad;
pha fodd yr wyt ti yn dywedyd, Dangos i ni
Tad? Onid wyt ti yn credu fy mod i yn y Tad
a'r Tad ynof finnau? Y geiriau yr wyf fi yn e
llefaru wrthych; nid o honof fy hun yr wyf y
eu llefarn, ond y Tad, yr hwn sydd yn arcs ynof
efe sydd yn gwneuthur y gweithredoedd. Cred
wch fi, fy mod i yn y Tad, a'r Tad ynof finnau
Ioan 14, 9, 10, 11. Myfi a'r Tad, un ydym
Ioan 10, 30. Mae yr ysgrythyrau a enwyd, y
amlwg, yn profi fod y Tad a'r Mab yn bersonau
gwahaniaethol, etto ond un Hanfod dragywydd
ol, yn deilwng o'r parch uchelaf, a'r addolia
mwyaf diffuant, oddiwrth ei holl greaduriaid dro
dragywyddoldeb: byddai yn hawdd iawn ca
llawer ereill o dystion yn ngair Duw, i gadarnha
y gwirionedd dan ein sylw presennol; ond n
yw eu henwi yn ateb fawr o ddyben yn y lle hw
oblegid yr hwn a glywo ar ei feddwl wadu, n
wyrdroi cymmaint a enwyd o air Duw, gall
hefyd yn hawdd glywed ar ei feddwl, wneud
un peth â holl air Duw, pan y byddo hyny
cyduno â'i ddyben ef; gan hyny ni af yn mla
i sylwi yn

2. Ar rai o'r ysgrythyrau sydd yn dangos
eglur, fod yr Ysbryd Glân yn berson. Yn
geiriau canlynol, ni gawn fod Iesu Grist
gwahaniaethu yr Ysbryd Glân oddiwrth y T
ac oddiwrtho ef ei hun; nid fel priodole
gwaith, neu weithrediad, ond fel person dwyf

Digitized by Google

ithr pan ddel y Dyddanydd, yr hwn a anfonaf i chwi oddiwrth y Tad (sef Ysbryd y gwirionedd, yr hwn sydd yn deilliaw oddiwrth y Tad) efe a lystiolaetha am danaf fi, Ioan 15, 26. Buddiol yw i chwi fy myned i ymaith; canys onid af fi, ni ddaw y Dyddanydd atoch; eithr os mi a af, mi a'i hanfonaf ef atoch; a phan ddel, efe a argyhoedda y byd o bechod, o gyfiawnder, ac o farn, Ioan 16, 7, 8. Y mae genyf etto lawer o bethau i'w dywedyd i chwi, ond ni ellwch eu dwyn yr awrhon. Ond pan ddel efe, sef Ysbryd y gwirionedd, efe a'ch tywys chwi i bob gwirionedd; canys ni lefara o hono ei hun; ond pa bethau bynag a glywo, a lefara efe: a'r pethau sydd i ddyfod a fynega efe i chwi. Efe a'm gogonedda i, canys efe a gymmer o'r eiddof, ac a'i mynega i chwi. Yr holl bethau sydd eiddo y Tad, ydynt eiddo fi; o herwydd hyn y dywedais, mai o'r eiddo fi y cymmer, ac y mynega i chwi, adn. 12, 13, 14, 15. Mae yr apostolion yn un mor eglur a chadarn yn yr athrawiaeth hon. Pa ham y llanwodd Satan dy galon (medd Pedr wrth Ananïas) i ddywedyd celwydd wrth yr Ysbryd Glân, ac i ddarn-guddio peth o werth y tîr? Act. 5, 3. A nyni ydym ei dystion ef o'r pethau hyn, a'r Ysbryd Glân hefyd, yr hwn a roddes Duw i'r rhai sydd yn ufuddâu iddo, adn. 32. A dywedodd yr Ysbryd wrth Phylip, Dôs yn nes, a glŷn wrth y cerbyd yma. A phan ddaethant i fynu o'r dwfr, Ysbryd yr Arglwydd a gipiodd Phylip ymaith, ac ni welodd yr eunuch ef mwyach, Act. 8, 29, 39. Mae dau beth yma yn profi fod yr Ysbryd Glân yn berson; yn gyntaf mae yn llefaru ac yn gorchymmyn, fel gŵr âg awdurdod: yn ail, ei waith yn dwyn Phylip ymaith, mewn modd gwyrthiol, i Azotus. Ac fel yr oeddent hwy yn gwasanaethu yr Arglwydd, ac

Digitized by Google

yn ymprydio, dywedodd yr Ysbryd Glân, Neillduwch i mi Barnabas a Saul, i'r gwaith y gelwais hwynt iddo, Act. 13, 2. Canys gwelwyd yn dda gan yr Ysbryd Glân, a chenym ninnau, na ddodid arnoch faich ychwaneg nâ'r pethau angenrheidiol hyn, Act. 15, 28. Ac wedi iddynt dramwy trwy Phrygia, a gwlad Galatia, a gwarafun iddynt gan yr Ysbryd Glân bregethu y gair yn Asia; pan ddaethant i Mysia, hwy a geisiasant fyned i Bithynia: ac ni oddefodd Ysbryd yr Iesu iddynt, pen. 16, 6, 7. Edrychwch gan hyny, arnoch eich hunain, ac ar yr holl braidd, ar yr hwn y gosododd yr Ysbryd Glân chwi yn olygwyr, i fugeilio eglwys Dduw, yr hon a bwrcasodd ef â'i briod waed, pen. 20, 28. Ac y mae yr Ysbryd yn eglur yn dywedyd yr ymedy rhai yn yr amseroedd diweddaf oddiwrth y ffydd, 1 Tim. 4, 1. Canys nid trwy ddyn y daeth gynt brophwydoliaeth: eithr dynion santaidd Duw a lefarasant megis y cynnyrfwyd hwy gan yr Ysbryd Glân, 2 Pedr 1, 21. Yn yr ysgrythyrau hyn, mae yr Ysbryd Glân yn cael yn amlwg ei ddysgrifio fel Person Dwyfol; ac fel un âg awdurdod anfeidrol, i drefnu holl ymddygiadau yr apostolion; ac fel anfeidrol wiliedydd yr eglwys, yn gofalu i ba le yr oeddent hwy i fyned, ac i ba le nid oedd yn iawn iddynt fyned. Hefyd, yr ydym yn cael fod ei ofal gymmaint am burdeb y gair, fel na chai dynion santaidd Duw ddim ei lefaru ond fel ag y byddai ef yn eu cyfarwyddo hwy i hyny; ïe, yr ydym yn cael eglur brawf yn Actau yr Apostolion, yn nghyd â'r holl epistolau, ei fod ef yn cyflawn ateb i'r hyn a ragddywedodd Crist am dano yn yr efengyl.

V. Fod yr ysgrythyrau yn ein dysgu ni, fod goruchel ac anfeidrol ddwyfoldeb yn hanfodol i'r

Digitized by Google

Mab, a'r Ysbryd Glân, yn gystal ag i'r Tad.
. Y mae yr enwau ag sydd yn yr ystyr uchelaf, a
nwyaf union-gyrch, yn perthyn yn unig i Dduw
nfeidrol, yn cael eu priodoli i'r Mab, ac i'r
Ysbryd Glân; megis Duw, Arglwydd, Jehofah,
Arglwydd y lluoedd, Sant Israel, Duw cadarn,
&c. Y mae y gair Duw, yn yr ystyr mwyaf pri-
odol, yn perthyn i anfeidrol wrthddrych dwyfol
ddoliad yn unig. Na fydded it' dduwiau ereill
ger fy mron i, Exod. 20, 3. Fel hyn y dywed
yr Arglwydd, &c. Nid oes Duw ond myfi, Esay
44, 6. Mae Iesu Grist yn cael ei alw yn Dduw,
c yn Dduw cadarn, yn wir Dduw, ac uwchlaw
pawb, yn Dduw bendigedig yn oes oesoedd. A
Duw oedd y gair, Ioan 1, 1. Ond wrth y Mab,
Dy orseddfainc di, O Dduw, sydd yn oes oesoedd:
eyrn-wialen uniondeb yw teyrn-wialen dy deyr-
as di, Heb. 1, 8. Psal. 46, 6. Canys bachgen
aned i ni, mab a roddwyd i ni, a bydd y llywod-
raeth ar ei ysgwydd ef: a gelwir ei enw ef, Rhy-
eddol, Cynghorwr, y Duw cadarn, Esay 9, 6.
Eiddo y rhai yw y tadau; ac o'r rhai yr hanoedd
Crist yn ol y cnawd, yr hwn sydd uwchlaw pawb,
yn Dduw bendigedig yn oes oesoedd. Amen.
Rhuf. 9, 5. Ac yn ddi-ddadl, mawr yw dirgel-
wch duwioldeb; Duw a ymddangosodd yn y
cnawd, 1 Tim. 3, 16. Ac yr ydym ni yn y
Cywir hwnw, sef yn ei Fab ef Iesu Grist. Hwn
yw (neu hwn yma, yn ol W. S.) y gwir Dduw, a'r
bywyd tragywyddol, 1 Ioan 5, 20. Mae yr
Ysbryd Glân yn cael ei alw yn Dduw mewn
aith yr un mor eglur, yn llyfr y gwirionedd.
Eithr Pedr a ddywedodd, Ananias, paham y llan-
wodd Satan dy galon di, i ddywedyd celwydd
wrth yr Ysbryd Glân; ac i ddarn-guddio peth o
werth y tir. Tra ydoedd yn aros, onid i ti yr
oedd yn aros? ac wedi ei werthu, onid oedd yn

Digitized by Google

feddiant i ti? Paham y gosodaist y peth hwn yn dy galon? Ni ddywedaist ti gelwydd wrth ddynion, ond wrth Dduw, Act. 5, 3, 4. Oni wyddoch chwi mai teml Dduw ydych, a bod Ysbryd Duw yn trigo ynoch? Os llygra neb deml Duw, Duw a lygra hwnw: canys santaidd yw teml Dduw, yr hon ydych chwi, 1 Cor. 3, 16, 17. Oni wyddoch chwi fod eich cyrff yn deml i'r Ysbryd Glân sydd ynoch, yr hwn yr ydych yn ei gael gan Dduw, pen. 6, 19.

2. Y mae Arglwydd, yn yr ystyr mwyaf priodol, yn perthyn i ddwyfol berson. Oblegid yr un Arglwydd ar bawb, sydd oludog i bawb ag sydd yn galw arno, Rhuf. 10, 12. Mae yr enw hwn yn fynych yn cael ei roddi ar Iesu Grist; canys ganwyd i chwi heddyw Geidwad yn ninas Dafydd, yr hwn yw Crist yr Arglwydd, Luc 2, 11. A Thomas a atebodd ac a ddywedodd wrtho, Fy Arglwydd a'm Duw, Ioan 20, 28. Yr hwn ni adnabu neb o dywysogion y byd hwn; o herwydd pes adwaenasent, ni chroeshoeliasent Arglwydd y gogoniant, 1 Cor. 2, 8. Mae yr enw Arglwydd yn cael ei roddi i Grist yn y lleoedd canlynol, yn nghyd â llawer o leoedd ereill rhy faith i'w henwi, Rhuf. 1, 3. 1 Cor. 1, 2, 3. 2 Cor. 1, 2. Gal. 1, 3. Eph. 1, 2, 3. Phil. 1, 2. Col. 1, 2, 3. 1 Thes. 1, 1. 2 Thes. 1, 1, 2. 1 Tim. 1, 2. 2Tim. 1, 2. Tit. 1, 4. Philem. 3. Iago 1, 1. 1 Pedr 1, 3. 2Pedr 1, 2. 2 Ioan 3. Jud 4. Mae yr enw Arglwydd hefyd yn cael ei roddi i'r Ysbryd Glân: eithr yr Arglwydd yw yr Ysbryd, a lle mae Ysbryd yr Arglwydd, yno y mae rhydd-did, 2 Cor. 3, 17. A'r Arglwydd a gyfarwyddo eich calonau chwi at gariad Duw, ac i ymaros am Grist, 2 Thes. 3, 5.

3. Arglwydd y lluoedd, Jehofah, a'r cyfryw

Digitized by Google

enwau goruwch y rhai nad yw yn perthyn i neb, ond i fod dwyfol, ydynt enwau cyffredin ar Grist yn ngair y gwirionedd. Fel hyn y dywed yr Arglwydd, Brenin Israel a'i waredydd, Arglwydd y lluoedd; myfi yw y cyntaf, diweddaf ydwyf fi hefyd; ac nid oes Duw ond myfi, Esay 44, 6. Wrth gydmaru yr adnod hon â Dat. 1, 11, 17. mae yn hawdd deall mai y gwr a anwyd yn Bethlehem, ac a fu byw i dalu dyled pechadur, yw yr Arglwydd y lluoedd hwn: oblegid y mae efe yno yn arddel dau o'r enwau ereill yn y lle olaf, sef cyntaf a'r diweddaf; ac yn marw ar y groes, â'r trydydd (sef Brenin Israel) uwch ei ben, Ioan 19, 19. Yn ei ddyddiau ef yr achubir Juda, ac Israel a breswylia yn ddiogel; a hyn fydd ei enw, ar yr hwn y gelwir ef, Yr Arglwydd ein cyfiawnder, Jer. 23, 6. pen. 33, 16. Eithr yr ydych chwi o hono ef yn Nghrist Iesu: yr hwn a wnaethwyd i ni gan Dduw yn ddoethineb, ac yn gyfiawnder, ac yn santeiddrwydd, ac yn bryned-igaeth, 1 Cor. 1, 30. Gan hyny, Crist yw yr Arglwydd ein cyfiawnder. Mae yr enwau hyn hefyd yn perthyn i'r Ysbryd Glân. Clywais hefyd lef yr Arglwydd (neu lef y Jehofah) yn dywedyd, Pwy a anfonaf? a phwy a â drosom ni? Yna y dywedais, Wele fi: ac efe a ddywed-odd, Dos, a dywed wrth y bobl hyn, Gan glywed clywch, ond na ddeallwch; a chan weled gwelwch, ond na wybyddwch, Esa. 6, 8, 9. Mae Paul yn cadarnâu mai yr Ysbryd Glân a lefar-odd y geiriau hyn. Da (medd ef) y llefarodd yr Ysbryd Glân trwy Esaias y proffwyd, wrth ein tadau ni, gan ddywedyd, Dos at y bobl yma, a dywed, Yn clywed y clywch, ac ni ddeallwch; ac yn gweled y gwelwch, ac ni chanfyddwch, Act. 28, 25, 26. Y mae yr Ysbryd Glân yn Arglwydd. Galwodd Moses enw lle yn yr an-

Digitized by Google

ialwch Massah a Meribah; am i blant Isra demtio yr Arglwydd yno, Exod. 17, 7. Am hyny megis y mae yr Ysbryd Glân yn dywedyd Heddyw, os gwrandewch ar ei leferydd ef, n chaledwch eich calonau, megis yn y cyffroad, y nydd y profedigaeth yn y diffaethwch: lle y temtiodd eich tadau fyfi, y profasant fi, ac y gwelasant fy ngweithredoedd ddeugain mlynedd Heb. 3, 7, 8, 9. Chwi rai gwar-galed, a dien waededig o galon ac o glustiau, yr ydych chwi yn wastad yn gwrthwynebu yr Ysbryd Glân: megis eich tadau, felly chwithau, Act. 7, 51. Ond dyma y cyfammod a wnaf fi â thŷ Israel a ol y dyddiau hyny, medd yr Arglwydd; Myfi a roddaf fy nghyfraith o'u mewn hwynt, ac a'i hysgrifenaf hi yn eu calonau hwynt; a mi a fyddaf iddynt hwy yn Dduw, a hwythau a fyddant yn bobl i mi, Jer. 31, 33. Y mae yn amlwg mai yr Ysbryd Glân yw yr Arglwydd sydd yn addo gwneud y gwaith hwn: ac y mae yr Ysbryd Glân hefyd yn tystiolaethu hyny i ni. Canys wedi iddo ddywedyd o'r blaen, Dyma y cyfammod, yr hwn a ammodaf fi â hwynt ar ol y dyddiau hyny, medd yr Arglwydd; Myfi a osodaf fy nghyfreithiau yn eu calonau, ac a'u hysgrifenaf yn eu meddyliau, Heb. 10, 15, 16. ei waith ei yw ysgrifenu yn nghalonau dynion, 2 Cor, 3, 3. Gan hyny y mae ef yn berson Dwyfol.

4. Mae yr enw Sant yn perthyn i berson, ac nid i neb arall. Canys myfi yw yr Arglwydd dy Dduw, Sant Israel dy waredydd. lë, cyn bod dydd yr ydwyf fi; ac nid oes a wared o'm llaw gwnaf, a phwy a'i lluddia? Fel hyn y dywed yr Arglwydd, eich gwaredydd chwi, Sant Israel. Myfi yr Arglwydd yw eich Sant chwi, creawdydd

Digitized by Google

srael, sieh Brenin chwi, Esa. 43, 13, 14, 15. 7 ma yr ymddengys ar un olwg, mai enw yw ant ag mae y Jehofah yn arddel iddo ei hun: tto, er mor ardderchog yw yr enw hwn, y mae f yn gweddu i Iesu Grist. Eithr chwi a wadas ch y Sant a'r cyfiawn, Act. 3, 14. Y pethau yn y mae y Santaidd, y Cywir, yn eu dywed d, Dat. 3, 7. Y mae yr enw hwn hefyd yn perthyn i'r Ysbryd Glân. Eithr y mae genych chwi eneinniad oddiwrth y Santaidd hwnw, a chwi a wyddoch bob peth, 1 Ioan 2, 20. Yn mhellach, gallwn sylwi fod y priodoliaethau a'r gwaith, sydd yn unig yn perthyn i berson dwyfol ac anfeidrol, yn cael eu priodoli i Grist, megis tragywyddoldeb, &c. Hefyd, gallwn sylwi fod yr hyn sydd yn llyfr Duw yn cael ei ddywedyd am Grist, yr ystyr mwyaf, onid yw ef yn wir Dduw, ac yn berson Dwyfol.

1. Y mae tragywyddoldeb yn cael ei briodoli i Iesu. Ië, gelwir ef yn Dad tragywyddoldeb, Esa. 9, 6. Ac, Tydi yn y dechreuad, Arglwydd, a sylfaenaist y ddaear: a gwaith dy ddwylaw di yw y nefoedd. Hwynt-hwy a ddarfyddant; ond tydi sydd yn parhau: a hwynt-hwy oll fel dilledyn a heneiddiant; ac megis gwisg y plygi di hwynt, a hwy a newidir: ond tydi yr un ydwyt, a'th flynyddoedd ni phallant, Heb. 1, 10—12. Myfi yw Alpha ac Omega, y cyntaf a'r diweddaf, Dat. 1, 11. Iesu Grist, ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd, Heb. 13, 8. Y mae hyn hefyd yn cael ei briodoli i'r Ysbryd Glân. Pa faint mwy y bydd i waed Crist, yr hwn trwy yr Ysbryd tragywyddol a'i hoffrymodd ei hun yn ddi-fai i Dduw, buro eich cydwybod chwi oddiwrth weithredoedd meirwon, i wasanaethu y Duw byw? Heb. 9, 14.

Digitized by Google

2. Mae holl-wybodaeth, yr hyn mad oes m ond Duw yn unig yn feddiannol arno, yn cael briodoli i Grist. Yn yr hwn y mae holl drysor doethineb a gwybodaeth yn guddiedig, Col. 2, Myfi yw yr hwn sydd yn chwilio yr arenau a calonau, Dat. 2, 23. Arglwydd, ti a wydd bob peth: ti a wyddost fy mod i yn dy garu d Ioan 21, 17. Yn awr y gwyddom y gwyddo bob peth, ac nid rhaid it' ymofyn o neb â thi Ioan 16, 30. A phan welodd yr Iesu eu meddyl iau, Mat. 9, 4. gwel hefyd pen. 12, 25. Y ma y tystiolaethau hyn mor eglur a grymus yn llyf Duw, yn profi holl wybodaeth Crist, fel ma pwy bynag a glywo ar ei feddwl, yn wyneb fath ymadrodd yn ngair y gwirionedd, i wadu na yw Iesu Grist yn holl-wybodol, y mae y *cyfry* ddyn (pwy bynag a fyddo) yn fwy teilwng wrth rych tosuri, ac o weddio trosto, nag o ymresym âg ef: oblegid y mae ei gydwybod wedi ei seri 1 Tim. 4, 2. fel y gall ef wadu pob peth ar un waith. Etto, y mae holl-wybodaeth *yn* perthy i'r Ysbryd Glân. Canys yr Ysbryd sydd y chwilio pob peth; ïe, dyfnion bethau Duw hefyd. Canys pa ddyn a edwyn bethau dyn, ond ysbryd dyn, yr hwn sydd ynddo ef? felly hefyd, pethau Duw nid edwyn neb ond Ysbryd Duw, 1 Cor. 2, 10, 11. Pwy a gyfarwyddodd Ysbryd yr Arglwydd, ac yn ŵr o gyngor a'i cyfarwydd odd ef? Esa. 40, 13.

3. Y mae holl-bresennoldeb yn briodoledd o eiddo Crist. Canys lle mae dau neu dri wedi ymgynnull yn fy enw i, yno yr ydwyf yn eu canol hwynt, Mat. 18, 20. Ac wele, yr ydwyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd, pen. 28, 20. Ac y mae efe cyn pob peth, ac ynddo ef y mae pob peth yn cyd-sefyll, Col. 1, 17. Yma gallwn

Digitized by Google

dwi yn 1. Fod Crist o ran ei ddynoliaeth ar
dëau-law y Tad yn y nefoedd, Marc 16, 19.
iorchymmynodd y Tad iddo eistedd yno hyd
es byddo ei elynion yn droed-fainc i'w draed,
sal. 110, 1. Gwelodd Stephan ef yno, Act.
,56. Yn 2. Ni's gall ef o ran ei ddynoliaeth fod
ewn mwy nag un lle, ar yr un waith: y mae
n anmhosibl i un dyn nac angel, neu un ysbryd
eidrol, fod mewn mwy nag un lle ar yr un pryd.
'n 3. Rhaid cyfaddef fod yr hyn oll a lefarodd
esu yn wirionedd safadwy am byth. Canys tyst
fyddlon a chywir yw efe, Dat. 3, 14. Ië, y
wirionedd ei hun, Ioan 14, 6; gan hyny, ni's
all ef ddywedyd dim ond y gwir: o galyniad,
haid cyfaddef ei fod ef yn wir Dduw, oblegid
id yw yn bosibl iddo fod lle bynag ag y byddo
lau neu dri wedi ymgynnull yn ei enw, trwy
mryw barthau y byd, ac eistedd ar ddëau-law y
Tad yn y nefoedd ar yr un waith, oni b'ai ei fod
yn Ddûw holl-bresennol. Hefyd y mae holl-bre-
ennoldeb yn berthynol i'r Ysbryd Glân. I ba le
yr af oddiwrth dy Ysbryd, ac i ba le y ffoaf o'th
wydd? os dringaf i'r nefoedd, yno yr wyt ti: os
cyweiriaf fy ngwely yn uffern, wele di yno, Psal.
139, 7, 8. Oblegid trwyddo ef (sef Crist) y mae
i ni ein dau ddyfodfa mewn un Ysbryd at y Tad,
Eph. 2, 20. A'r un ffunud y mae'r Ysbryd hefyd
yn cynnorthwyo ein gwendid ni. Canys ni
wyddom ni beth a weddiom, megis y dylem:
eithr y mae yr Ysbryd ei hun yn erfyn trosom ni
âg ocheneidiau annhraethadwy, Rhuf. 8, 26.

4. Y mae holl-alluogrwydd yn hanfodol i Grist. Yr hwn a gyfnewidia ein corff gwael ni, fel y gwneler ef yr un ffurf â'i gorff gogoneddus ef, yn ol y nerthol weithrediad trwy yr hwn y dichon efe, ïe, ddarostwng pob peth iddo ei hun,

Digitized by Google

Phil. 3, 21. Myfi yw Alpha ac Omega, y dechreu a'r diwedd, medd yr Arglwydd, yr hwn sydd, a'r hwn oedd, a'r hwn sydd i ddyfod, yr Holl-alluog, Dat. 1, 8. Y mae hyn hefyd, sef Holl-alluogrwydd, yn perthyn i'r Ysbryd Glân. Canys yr Ysbryd Glân a ddaw arnat ti, a nerth y Goruchaf a'th gysgoda di; am hyny hefyd y peth santaidd a enir o honot ti, a elwir yn Fab Duw, Luc 1, 39. Canys ni feiddaf fi ddywedyd dim o'r pethau ni weithredodd Crist trwof fi, i wneuthur y cenedloedd yn ufudd ar air a gweithred, trwy nerth arwyddion a rhyfeddodau, gan nerth Ysbryd Duw, Rhuf. 15, 18, 19. Canys i un, trwy yr Ysbryd, y rhoddir ymadrodd doethineb; ac i arall, ymadrodd gwybodaeth, trwy yr un Ysbryd; ac i arall ffydd, trwy yr un Ysbryd; ac i arall ddawn i iachâu, trwy yr un Ysbryd; ac i arall, wneuthur gwyrthiau; ac i arall broffwydoliaeth; ac i arall, wahaniaeth ysbrydoedd; ac i arall, amryw dafodau; ac i arall, gyfieithad tafodau. A'r holl bethau hyn y mae yr un a'r unrhyw Ysbryd yn eu gweithredu, gan ranu i bob un o'i neilldu megis ag y mae yn ewyllysio, 1 Cor. 12, 8—11. Yn mhellach fe amlygir i ni yn ngair Duw, fod y gweithredoedd pa rai sydd yn perthyn i berson anfoidrol, ac iddo ef yn unig, yn cael eu gwneud gan y Gwr ogwyddodd ei ben rhwng y lladron. Gan hyny y mae yn rhaid ei fod ef yn berson Dwyfol.

1. Creu y bydoedd a'u lluoedd hwynt: trwyddo ef y gwnaethwyd pob peth, ac hebddo ef ni wnaethwyd dim ar a wnaethwyd, Ioan 1, 3; Canys trwyddo ef y crewyd pob dim a'r sydd yn chwi fedd, ac sydd ar y ddaear, yn weledig ac yn Ac y nwlig, pa un bynag ai thronau, ai arglwyddpeth yn, ai tywysogaethau, ai meddiannau; pob

Digitized by Google

lim a grewyd trwyddo ef, ac erddo ef, Col. 1, 16. Y mae hyn mewn geiriau yr un mor amlwg yn ael ei briodoli i'r Ysbryd Glân. Ysbryd Duw 'm gwnaeth i; ac anadl yr Hollalluog a'm bywioc- odd i, Job 33, 4. Ac Ysbryd Duw yn ymsymud ar wyneb y dyfroedd, Gen. 1, 2.

2. Bywâu y meirw a'u hadgyfodi yn y dydd nawr, sydd waith perthynol i Dduw yn unig; etto y mae yn amlwg fod Crist trwy ei allu ei hun yn gwnëud hyn. Oblegid megis y mae y Tad yn cyfodi y rhai meirw, ac yn eu bywâu; felly hefyd y mae y Mab yn bywâu y rhai a fyno. Na yfeddwch am hyn: canys y mae yr awr yn dyfod, yn yr hon caiff pawb a'r sydd yn eu beddau glywed ei leferydd ef: a hwy a ddeuant allan, y rhai a wnaethant dda, i adgyfodiad bywyd; ond y rhai a wnaethant ddrwg, i adgyfodiad barn, Ioan 5, 21, 28, 29. A hyn yw ewyllys yr hwn a'm hanfonodd i; cael o bob un sydd yn gweled y Mab, ac yn credu ynddo ef, fywyd tragywyddol: a myfi a'i hadgyfodaf ef yn y dydd diweddaf, Ioan 6, 40. A Thywysog (awdwr) y bywyd a laddasoch, Act 3, 15. pen. 4, 10. Y mae bywâu y meirw hefyd yn cael ei briodoli i'r Ysbryd Glân. Wedi ei (set Crist) farwolaethu yn y cnawd, eithr ei fywâu yn yr Ysbryd, 1 Pedr 1, 18. Ac os yr Ysbryd yr hwn a gyfododd Iesu o feirw sydd yn trigo ynoch, yr hwn a gyfododd Crist o feirw a fywiocâ hefyd eich cyrff marwol chwi, trwy ei Ysbryd, yr hwn sydd yn trigo ynoch, Rhuf. 8, 11.

3. Y gwaith o fod yn wastad gydâ ei bobl, yn eu plith, ac o breswylio ynddynt, a briodolir i Grist. Y pethau hyn y mae yr hwn sydd yn dal y saith seren yn ei law ddëau, yr hwn sydd yn

Digitized by Google

rhodio y'nghanol y saith ganwyllbren aur, yn eu dywedyd, Dat. 2, 1. Os câr neb fi, efe a geidw fy ngair: a'm Tad a'i câr yntau, a nyni a ddeuwn ato, ac a wnawn ein trigfa gydâg ef, Ioan 14, 23. Holwch eich hunain, ai nid ydych yn eich adnabod eich hunain, sef bod Iesu Grist ynoch, oddieithr i chwi fod yn anghymmeradwy, 2 Cor. 13, 5. I'r rhai yr ewyllysiodd Duw hysbysu beth yw golud gogoniant y dirgelwch hwn, yn mhlith y cenedloedd, yr hwn yw Crist ynoch chwi, gobaith y gogoniant, Col. 1, 27. Y mae yn hawdd i bob dyn, o synwyr cyffredin, ddyall nad yw ddim yn bosibl i Grist breswylio yn ei holl saint, oni b'ai ei fod efe yn Dduw holl-bresennol; ond wele y Tad yma yn amlwg ewyllysio i'r dirgelwch hwn gael ei wnëyd yn amlwg yn mhlith y holl genedloedd, fod yn rhaid i Grist fod ynom ni, neu ein bod ni wedi y cwbl yn anghymmeradwy gydâg ef. Mae byw yn y saint hefyd yn cael ei briodoli i'r Ysbryd Glân, A mi a weddiaf ar y Tad, ac efe a rydd i chwi Ddyddanydd arall, fel yr aroso gydâ chwi yn dragywyddol; Ysbryd y gwirioneddd, yr hwn ni dderchon y byd ei dderbyn, am nad yw yn ei weled, nac yn ei adnabod ef: ond chwi a'i hadwaenoch ef; o herwydd y mae yn aros gydâ chwi, ac ynoch y bydd efe, Ioan 14, 16, 17. Oni wyddoch chwi fod eich corff yn deml i'r Ysbryd Glân, sydd ynoch, yr hwn yr ydych yn ei gael gan Dduw, 1 Cor. 6, 19. Ac o herwydd eich bod yn feibion, yr anfonodd Duw Ysbryd ei Fab i'ch calonau chwi, yn llefain, Abba, Dad, Gal. 4. 6.

4. Y mae dwyfol addoliad yn beth ag sydd yn perthyn i Dduw, ac iddo ef yn unig.

1. Gallwn sylwi na oddef yr Arglwydd ddim i

Digitized by Google

in creadur yn y nef nac ar y ddaear i gymmeryd i addoli: mawl yw dwyfol addoliad; ac y mae y Jehofa wedi ei gadw iddo ei hun, ac y mae efe yn eiddigeddus dros y gogoniant hwn, ac ni wna ei roi i neb arall, Esa. 42, 8. A'm gogoniant ni oddaf i arall, na'm mawl i ddelwau cerfiedig.

2. Y mae yn amlwg y byddai anfoddlonrwydd yr Arglwydd yn gorphwys ar bawb ag a fyddai mor eilun-addolgar a rhoddi addoliad i neb ond i'r Duw byw, 2 Bren. 17, 12—18. Ie, y mae ei ddigofaint yn gorphwys ar bawb a dderbynio y fath anrhydedd a hwn, Lef. 26, 30. Hefyd, y mae tuedd duwiolion mor wrthwyneb i addoli dim ond y gwir Dduw, fel y maent am ddinystrio pob peth arall ag sydd yn cael yr anrhydedd hwn yn ei le ef, 2 Cron. 34, 4, 5, 6, 7. Hefyd, y mae yr Arglwydd mor eiddigeddus dros ei ogoniant, fel nad yw yn dyoddef i ddyn gymmeryd ei addoli, Act. 12, 23. Ac nid yw efe yn derbyn i'w gymdeithas y rhai sydd yn euog o eilunaddoliaeth, nes iddo eu glanâu oddiwrth eu heilunod, Ezec. 36, 25. Yn mhellach, fe wna yr Arglwydd i ysbryd aflan eilun-addoliaeth beidio bod yn y tir, Zec. 13, 2.

3. Mae yn amlwg fod y Jehofa tragywyddol wedi rhoddi gorchymmynion i'w bobl, i ymgadw oddiwrth yr aflendid hwn, gan ddywedyd, Bwriwch ymaith bob un ffieidd-dra ei lygaid, ac nac ymhalogwch âg eilunod yr Aipht, Ezec. 20, 7. 1 Cor. 10, 7. 1 Ioan 5, 21. Y mae anian Duw mewn dynion duwiol mor groes i'r pechod hwn, fel na allai ofn y tân eu plygu i'w gyflawni, Dan. 3, 18. Hefyd, y mae angelion mor eiddigeddus dros ogoniant eu Harglwydd, fel y gorchymmyn un o

Digitized by Google

honynt, gan ddywedyd wrth Ioan, Dat. 19, 10. a 22, 8. am edrych na byddai iddo wnëyd y fath waith a'i addoli ef, ond mewn geiriau eglur y mae yn gorchymmyn iddo addoli Duw: ond er hyn i gyd, y mae dwyfol addoliad yn cael ei roddi i Iesu Grist; a gorchymmyn y Tad (yr hwn na orchymmynodd ddim erioed, ond oedd yn iawn i'r holl angelion i wnëud hyny. Pan yw yn dwyn y cyntaf-anedig i'r byd, y mae yn dywedyd, Ac addoled holl angelion Duw ef, Heb. 1, 6. Ac yn yr oriau mwyaf sobr ag a fu ar Stephan erioed, wele, efe yn roddi dwyfol barch i Grist, ac yn gorchymmyn ei unig enaid iddo, Act. 7, 59. O herwydd paham, Duw a'i tra-dyrchafodd yntau, ac a roddes iddo enw, yr hwn sydd goruwch pob enw; fel yn enw Iesu y plygai pob glin, o'r nefolion, a'r daearolion, a than ddaearolion bethau; ac y cyffesai pob tafod fod Iesu Grist yn Arglwydd, er gogoniant Duw Dad, Phil. 2, 9. Iddo ef yr hwn a'n carodd ni, ac a'n golchodd ni oddiwrth ein pechodau yn ei waed ei hun, ac a'n gwnaeth ni yn freninoedd ac yn offeiriaid i Dduw, a'i Dad ef, iddo ef y byddo y gogoniant a'r gallu yn oes oesoedd. Amen, Dat. 1, 5, 6. Ac mi a edrychais, ac a glywais lais angelion lawer y'nghylch yr orsedd-fainc, a'r anifeiliaid, a'r henuriaid: a'u rhifedi hwynt oedd fyrddiynau o fyrddiynau, a miloedd o filoedd; yn dywedyd â llef uchel, Teilwng yw'r Oen, yr hwn a laddwyd, i dderbyn gallu, a chyfoeth, a doethineb, a chadernid, ac anrhydedd, a gogoniant, a bendith. A phob creadur ag sydd yn y nef, ac ar y ddaear, a than y ddaear, a'r pethau sydd yn y môr, ac oll ag sydd ynddynt, a glywais i yn dywedyd, I'r hwn sydd yn eistedd ar yr orsedd-fainc, ac i'r Oen, fyddo y fendith, a'r anrhydedd, a'r gogoniant,

Digitized by Google

'r gallu, yn oes oesoedd, Dat. 5, 11, 12, 13. Fel r anrhydeddai pawb y Mab, fel y maent yn anıydeddu y Tad. Yr hwn nid yw yn anrhydldu y Mab, nid yw yn anrhydeddu y Tad yr wn a'i hanfonodd ef, Ioan 5, 23. Y mae gorchel roddiad y gorchymmyn i addoli Crist, ac fudd-dod y llu nefol, yn brawf anwrthwynebol o)duwdod y gŵr fu ar y groes: ac er fod anfodd)nrwydd y Tad yn fynych (fel y sylwyd) wedi mddangos mewn barnedigaethau trymion iawn r eilunod a'u haddolwyr, ymhob oes, etto ni dangosodd efe erioed ddim anfoddlonrwydd i eb am addoli Iesu, hyd y nod yn y cadachau, lat. 2, 11. Psal. 72, 10. Ac ni ddangosodd yr rwydd leiaf o anfoddlonrwydd i Grist am gymıeryd ei addoli, ond i'r gwrthwyneb, mae yn orchymmyn iddo eistedd ar ei ddëaulaw, Psal. 10, 1. Y mae dwyfol addoliad hefyd yn cael i roddi i'r Ysbryd Glân. Ewch gan hyny, a lysgwch yr holl genedloedd, gan eu bedyddio ıwy yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân, lat. 28, 19. Yn ddiammeu mai eilun-addolaeth fra ffiaidd yw bedyddio un dyn yn enw neb ınd yn enw y gwir a'r bywiol Dduw. Gan fod)edydd yn un o'r cyflawniadau mwyaf gorucliel newn dwyfol addoliad, trwy yr hon ordinâad yr ydym yn cyflwyno ein hunain, a'r hyn oll a fedd)m, i wasanaeth yr hwn y'n bedyddier yn ei enw:)nd gorchymmynir yn y lle uchod i'r ordinâad ıon gael ei gweinyddu yn enw y Mab, a'r Ysbryd Glân, yn gystal ag yn enw y Tad; ac yn Act. 19, 5. yr ydym yn cael fod yr ordinâad hon rn cael ei gweinyddu yn enw yr Arglwydd Iesu. Y mae yn anhawdd iawn deall pa fodd y gallasai y drefn hon gael ei chysoni â'r gorchymmyn ıchod o eiddo Crist, oddieithr fod cyflawnder y

Digitized by Google

Duwdod yn preswylio yn yr Iesu hwn; etto, yn
y geiriau canlynol, yr ydym yn cael ein bendithio
yn enw y Tri. Gras ein Harglwydd Iesu Grist,
a chariad Duw, a chymdeithias yr Ysbryd Glân,
a fyddo gydâ chwi oll, 2 Cor. 13, 13. Yma y
gwelwn fod yr Apostol, yr hwn oedd â meddwl
Crist ganddo, yn dymuno fod gras ein Harglwydd Iesu, a chymdeithias yr Ysbryd Glân,
gydâ yr eglwys, fel pethau o gymmaint eu pwys a
chariad y Tad. A llefodd y naill o'r seraphiaid
wrth y llall, ac a ddywedodd, Sant, Sant, Sant, yw
Arglwydd y lluoedd, yr holl ddaear sydd lawn o'i
ogoniant ef, Esa. 6, 3. Y mae yn amlwg fod y geiriau ynDat. 4, 8. yn cyfeirio at y rhai hyn. Ni raid
i mi yma sylwi dim, ond dywedyd mai y meddwl
mwyaf cyffredin yw, fod adroddiad y gair Sant
dair gwaith, yn amlygiad o drefn llu y nefoedd
yn parchu Tad, Mab, ac Ysbryd, yn ogyfuwch
y naill â'r llall: y mae yn eglur wrth gydmaru
yr adnod hon â'r 9fed adnod o'r un bennod, mai
yr un sydd yn cael ei addoli yma gan y seraphiaid ag sydd wedi anfon y proffwyd at dŷ Israel;
ac y mae Paul, fel y sylwyd yn barod, yn haeru
mai yr Ysbryd Glân wnaeth hyny, Act. 28,
25, 26. Gan hyny mae yn amlwg fod yr Ysbryd
Glân yn cael ei addoli, gan lu y nefoedd, dan
yr enw Arglwydd y lluoedd. Dywed yr hen wr,
Simeon, Arglwydd, yr awr hon y gollyngi dy
was mewn tangnefedd yn ol dy air: canys fy
llygaid a welsant dy Iechydwriaeth. Gair yr
Ysbryd Glân, mae efe yma yn sôn am dano,
canys yr Ysbryd Glân oedd wedi hysbysu iddo
na welai efe angeu, cyn iddo weled Crist yr Arglwydd, Luc 2, 26, 28, 30. Gan hyny mae yr
Ysbryd Glân yn caelei gydnabod yn y lle hwn, fel
gwr âg awdurdod ganddo i ollwng y saint i mewn

Digitized by Google

wynfyd tragywyddol. A'r Arglwydd a gyfarwyddo eich calonau chwi at gariad Duw, ac i ymaros am Grist, 2 Thes. 3, 5. Yna y bydd yr holl niwl a'r tywyllwch wedi ei wasgaru, a lleni nos wedi cilio draw, a'r olwg arno wrth olew lydd tragywyddol, wedi peri i'r ddadl ddarfod im ddwyfoldeb ei berson. Fel hyn yr wyf yn cael llyfr Duw yn priodoli yr enwau, y perfeithiadau, y gwaith, a'r addoliad perthynol i Dduw yn unig, i'r Mab, ac i'r Ysbryd Glân. Ac nid wyf yn meddwl ei fod yn ormod i ddywedyd fod yr ysgrythyrau a enwyd, y'nghyd â lawer ereill, nid yn gasgliadol ddangos, ond yn union-gyrch brofi hanfodol Dduwdod y Mab a'r Ysbryd Glân; gan na ellir dywedyd y fath bethau am un creadur, ag a ddywed gair Duw am danynt hwy, na phriodoli y fath bethau i un o'r creaduriaid, heb fod yn euog o'r eilun-addoliad gwaethaf, a'r cabledd mwyaf haerllug a ddaeth o enau un dyn erioed. Yma gallwn ychwanegu ein bod wedi cael amlygiad gogoneddus iawn o'r tri pherson dwyfol, pan bedyddiwyd ein Harglwydd Iesu Grist yn yr Iorddonen, Mat. 3, 16, 17. A'r Iesu, wedi ei fedyddio, a aeth yn y fan i fynu o'r dwfr: ac wele y nefoedd a agorwyd iddo, ac efe a welodd Ysbryd Duw yn disgyn fel colomen, (neu fel y disgynai colomen) ac yn dyfod arno ef; ac wele, lef o'r nefoedd, yn dywedyd, Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd. Yma yr ydym yn cael yr athrawiaeth yn amlwg—y Mab yn dyfod i fynu o'r dwfr, a'r Ysbryd Glân ar ffun colomen yn dyfod, ac yn disgyn arno, a'r Tad ar yr un pryd, yn y nef, yn dwyn tystiolaeth iddo: etto yr ydym yn cael y cyflelyb amlygiad o'r Tad a'r Mab yn ngwedd-newidiad Crist ar y mynydd. Y mae yr hanes yn cael

Digitized by Google

ei rhoddi gan dri o'r efengylwyr, a chan Pe
yn y geiriau canlynol; Canys nid gan ddily
chwedlau cyfrwys, yr hysbysasom i chwi ner
a dyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist; eithr we
gweled ei fawredd ef â'n llygaid, canys efe a dde
byniodd gan Dduw Dad, barch a gogoniant, pa
ddaeth y cyfryw lef ato oddiwrth y mawr-ragor
Ogoniant, Hwn yw fy anwyl Fab i, yn yr hwn y'
boddlonwyd. A'r llef yma, yr hon a ddaeth o
nef, a glywsom ni, pan oeddym gydâg ef yn
mynydd santaidd. Yna, wedi dywedyd mor am
lwg am y Tad a'r Mab, y mae yr Apostol yn my
ned rhagddo i lefaru am yr Ysbryd Glân. Ac
mae genym air sicrach y proffwydi, yr hwn da
gwnewch fod yn dal arno, megis ar ganwyll y
llewyrchu mewn lle tywyll, hyd oni wawrio
dydd, ac oni chodo y seren ddydd yn eich calo
au chwi: gan wybod hyn yn gyntaf, nad oes u
broffwydoliaeth o'r ysgrythyr o ddeongliad priod
Canys nid trwy ewyllys dyn y daeth gynt bro
ffwydoliaeth: eithr dynion santaidd Duw a lefar
asant megis y cynnyrfwyd hwy gan yr Ysbry
Glân, 2 Pedr 1, 16—21. Yn awr, mi feddyliwn pw
bynag a ddarlleno yr ysgrythyrau a sylwyd arnyn
a'u hystyried yn bwyllog a diragfarn, y gwel ef
fod yr athrawiaeth y sylwais arni dan y pena
cyffredinol uchod yn un eglur a diammheu
y'ngair Duw: sef, 1. Nad oes ond un Jeho
anfeidrol. 2. Fod lluosogrwydd yn yr un Je
hofa hwn. 3. Fod y lluosogrwydd hwnw yn cae
ei gyfyngu i'r rhif tri. 4. Mai nid lluosogrwyd
o enwau neu swyddau yw y rhai hyn, ond per
so[illegible] yn gwnëyd i fynu un hanfod tragywyddol
[illegible] goruchel ac hanfodol ddwyfoldeb
eidrwydd yn perthyn i'r Mab a'r Ys
ân, yn yr un modd ag y mae yn per

Digitized by Google

hynu i'r Tad. Nid yw hyn dim ond yr hyn a ddatguddiodd efe ei hun, gan hyny nid yw ddim rhaid yr hyn a ddylem ni ei gredu, ïe, y mae yn ddyddswydd arnom, ac o ganlyniad yn rhwymau, i gredu yr hyn oll a lefarodd yr Arglwydd. Os bydd i ni ystyried nad yw efe wedi lefaru dim wrthym i'r dyben i ni i'w ammeu a'i anghredu, a thrwy hyny daflu celwydd yn ei wyneb, ond ymddarostwng wnaeth o'i ras i lefaru wrthym am y dirgeledigaethau nas gallasem byth eu gwybod mewn un ffordd arall, fel y byddai i ni barchu a chredu ei dystiolaeth ef; ac os bydd i ni gofio mai yr hwn na all ddywedyd dim ond y gwirionedd, sydd wedi trosglwyddo y datguddiad hwn i ni, y mae yn deilwng i ofyn, Pa fodd y diangwn am wrthod ei dystiolaeth ef am dano ei hun? Ond pa fodd y mae y lluosogrwydd hwn yn bod yn yr un Jehofa anfeidrol, a pha fodd y mae y tri hyn yn un, ni ddatguddiodd efe hyn i ni, am hyny nid oes galwad i ni gredu hyny; a pheth sydd a wnelom â phethau Duw y'mhellach nâg y mae y gair yn ein dysgu ynddynt; ond er hyn gall rhyw un (os nid llawer) fod yn barod i ddywedyd, Nid wyf yn dyall nac yn amgyffred y fath athrawiaeth a hon. Fy nghyfaill, beth all fod yma nad wyt ti yn ei ddyall; yr wyf yn symyl farnu fod gair y gwirionedd hob un dyryswch, na'r anhawsdra lleiaf yn profi yr hyn a roddwyd ger dy fron; ond os meddwl yr wyt nad ydwyt yn dyall pa fodd y mae un yn dri, a thri yn un, yr wyf yn barod i gyfaddef nad wyf finnau chwaith yn dyall hyny, ac nad oes eisiau i mi ei ddyall, am nad yw wedi ei ddatguddio y'ngair Duw. Yma gallwn sylwi fod yn anmhosibl i ni wybod dim yn iawn am Dduw, ond yr hyn mae efe wedi ei ddatguddio i ni; ond y mae yn

Digitized by Google

Phil. 3, 21. Myfi yw Alpha ac Omega, y dechreu a'r diwedd, medd yr Arglwydd, yr hwn sydd, a'r hwn oedd, a'r hwn sydd i ddyfod, yr Holl-alluog, Dat. 1, 8. Y mae hyn hefyd, sef Holl-alluogrwydd, yn perthyn i'r Ysbryd Glân. Canys yr Ysbryd Glân a ddaw arnat ti, a nerth y Goruchaf a'th gysgoda di; am hyny hefyd y peth santaidd a enir o honot ti, a elwir yn Fab Duw, Luc 1, 39. Canys ni feiddaf fi ddywedyd dim o'r pethau ni weithredodd Crist trwof fi, i wneuthur y cenedloedd yn ufudd ar air a gweithred, trwy nerth arwyddion a rhyfeddodau, gan nerth Ysbryd Duw, Rhuf. 15, 18, 19. Canys i un, trwy yr Ysbryd, y rhoddir ymadrodd doethineb; ac i arall, ymadrodd gwybodaeth, trwy yr un Ysbryd; ac i arall ffydd, trwy yr un Ysbryd; ac i arall ddawn i iachâu, trwy yr un Ysbryd; ac i arall, wneuthur gwyrthiau; ac i arall broffwydoliaeth; ac i arall, wahaniaeth ysbrydoedd; ac i arall, amryw dafodau; ac i arall, gyfieithad tafodau. A'r holl bethau hyn y mae yr un a'r unrhyw Ysbryd yn eu gweithredu, gan ranu i bob un o'i neilldu megis ag y mae yn ewyllysio, 1 Cor. 12, 8—11. Yn mhellach fe amlygir i ni yn ngair Duw, fod y gweithredoedd pa rai sydd yn perthyn i berson anfeidrol, ac iddo ef yn unig, yn cael eu gwneud gan y Gwr ogyddodd ei ben rhwng y lladron. Gan hyny y mae yn rhaid ei fod ef yn berson Dwyfol.

1. Creu y bydoedd a'u llubedd hwynt: trwyddo ef y gwnaethwyd pob peth, ac hebddo ef ni wnaethwyd dim ar a wnaethwyd, Ioan 1, 3; Canys trwyddo ef y crewyd pob dim a'r sydd yn chwi yedd, ac sydd ar y ddaear, yn weledig ac yn Ac y mdig, pa un bynag ai thronau, ai arglwyddpeth yn, ai tywysogaethau, ai meddiannau; pob

Digitized by Google

lim a grewyd trwyddo ef, ac erddo ef, Col. 1, 16. Y mae hyn mewn geiriau yr un mor amlwg yn ael ei briodoli i'r Ysbryd Glân. Ysbryd Duw 'm gwnaeth i; ac anadl yr Hollalluog a'm bywioc- odd i, Job 33, 4. Ac Ysbryd Duw yn ymsymud ar wyneb y dyfroedd, Gen. 1, 2.

2. Bywâu y meirw a'u hadgyfodi yn y dydd awr, sydd waith perthynol i Dduw yn unig; tto y mae yn amlwg fod Crist trwy ei allu ei hun yn gwnëud hyn. Oblegid megis y mae y Tad yn cyfodi y rhai meirw, ac yn eu bywâu; felly efyd y mae y Mab yn bywâu y rhai a fyno. Na yfeddwch am hyn: canys y mae yr awr yn dyfod, yn yr hon caiff pawb a'r sydd yn eu beddau glywed ei leferydd ef: a hwy a ddeuant allan, y rhai a wnaethant dda, i adgyfodiad bywyd; ond y rhai a wnaethant ddrwg, i adgyfodiad barn, Ioan 5, 21, 28, 29. A hyn yw ewyllys yr hwn 'm hanfonodd i; cael o bob un sydd yn gweled y Mab, ac yn credu ynddo ef, fywyd tragywydd- ol: a myfi a'i hadgyfodaf ef yn y dydd diweddaf, Ioan 6, 40. A Thywysog (awdwr) y bywyd a addasoch, Act 3, 15. pen. 4, 10. Y mae bywâu y meirw hefyd yn cael ei briodoli i'r Ysbryd Glân. Wedi ei (set Crist) farwolaethu yn y cnawd, eithr ei fywâu yn yr Ysbryd, 1 Pedr 3, 18. Ac os yr Ysbryd yr hwn a gyfododd Iesu o feirw sydd yn trigo ynoch, yr hwn a gyfododd Crist o feirw a fywiocâ hefyd eich cyrff marwol hwi, trwy ei Ysbryd, yr hwn sydd yn trigo ynoch, Rhuf. 8, 11.

3. Y gwaith o fod yn wastad gydâ ei bobl, yn u plith, ac o breswylio ynddynt, a briodolir i Grist. Y pethau hyn y mae yr hwn sydd yn dal y saith seren yn ei law ddëau, yr hwn sydd yn

Digitized by Google

rhodio y'nghanol y saith ganwyllbren **aur**, yn ei dywedyd, Dat. 2, 1. Os câr neb fi, efe a geidw fy ngair: a'm Tad a'i câr yntau, a nyni a ddeuwn ato, ac a wnawn ein trigfa gydâg ef, Ioan 14, 23. Holwch eich hunain, ai nid ydych yn eich adnabod eich hunain, sef bod Iesu **Grist ynoch**, oddieithr i chwi fod yn anghymmeradwy, 2 Cor. 13, 5. I'r rhai yr ewyllysiodd Duw hysbysu beth yw golud gogoniant y dirgelwch hwn, **yn mhlith** y cenedlocdd, yr hwn yw Crist **ynoch chwi**, gobaith y gogoniant, Col. 1, 27. **Y mae** yn hawdd i bob dyn, o synwyr cyffredin, ddyall nad yw ddim yn bosibl i Grist breswylio **yn ei** holl saint, oni b'ai ei fod efe yn Ddûw holl-bresennol; ond wele y Tad yma yn amlwg ewyllysio i'r dirgelwch hwn gael ei wnëyd yn amlwg yn mhlith y holl genedlocdd, fod yn rhaid i Grist fod ynom ni, neu ein bod ni wedi y cwbl yn anghymmeradwy gydâg ef. Mae byw yn y saint hefyd yn cael ei briodoli i'r Ysbryd Glân, A mi a weddiaf ar y Tad, ac efe a rydd i chwi **Ddy**ddanydd arall, fel yr aroso gydâ chwi *yn* **dra**gywyddol; Ysbryd y gwirioncdd, yr hwn ni **dd**ichon y byd ei dderbyn, am nad yw yn ei weled, nac yn ei adnabod ef: ond chwi a'i hadwaenoch ef; o herwydd y mae yn aros gydâ chwi, ac yn och y bydd efe, Ioan 14, 16, 17. Oni wyddoch chwi fod eich corff yn deml i'r Ysbryd Glân, sydd ynoch, yr hwn yr ydych yn ei gael gan Ddûw, 1 Cor. 6, 19. Ac o herwydd eich bod yn feibion, yr anfonodd Duw Ysbryd ei Fab i'ch calonau chwi, yn llefain, Abba, Dad, Gal. 4. 6.

4. Y mae dwyfol addoliad yn beth ag sydd yn perthyn i Dduw, ac iddo ef yn unig.

1. Gallwn sylwi na oddef yr Arglwydd ddim i

Digitized by Google

un creadur yn y nef nac ar y ddaear i gymmeryd ei addoli: mawl yw dwyfol addoliad; ac y mae y Jehofa wedi ei gadw iddo ei hun, ac y mae efe yn eiddigeddus dros y gogoniant hwn, ac ni wna ei roi i neb arall, Esa. 42, 8. A'm gogoniant ni roddaf i arall, na'm mawl i ddelwau cerfiedig.

2. Y mae yn amlwg y byddai anfoddlonrwydd yr Arglwydd yn gorphwys ar bawb ag a fyddai mor eilun-addolgar a rhoddi addoliad i neb ond i'r Duw byw, 2 Bren. 17, 12—18. Ië, y mae ei ddigofaint yn gorphwys ar bawb a dderbynio y fath anrhydedd a hwn, Lef. 26, 30. Hefyd, y mae tuedd duwiolion mor wrthwyneb i addoli dim ond y gwir Dduw, fel y maent am ddinystrio pob peth arall ag sydd yn cael yr anrhydedd hwn yn ei le ef, 2 Cron. 34, 4, 5, 6, 7. Hefyd, y mae yr Arglwydd mor eiddigeddus dros ei ogoniant, fel nad yw yn dyoddef i ddyn gymmeryd ei addoli, Act. 12, 23. Ac nid yw efe yn derbyn i'w gymdeithas y rhai sydd yn euog o eilunaddoliaeth, nes iddo eu glanâu oddiwrth eu heilunod, Ezec. 36, 25. Yn mhellach, fe wna yr Arglwydd i ysbryd aflan eilun-addoliaeth beidio bod yn y tir, Zec. 13, 2.

3. Mae yn amlwg fod y Jehofa tragywyddol wedi rhoddi gorchymmynion i'w bobl, i ymgadw oddiwrth yr aflendid hwn, gan ddywedyd, Bwriwch ymaith bob un ffieidd-dra ei lygaid, ac nac ymhalogwch âg eilunod yr Aipht, Ezec. 20, 7. 1 Cor. 10, 7. 1 Ioan 5, 21. Y mae anian Duw mewn dynion duwiol mor groes i'r pechod hwn, fel na allai ofn y tân eu plygu i'w gyflawni, Dan. 3, 18. Hefyd, y mae angelion mor eiddigeddus dros ogoniant eu Harglwydd, fel y gorchymmyn un o

Digitized by Google

honynt, gan ddywedyd wrth Ioan, Dat. 19, 10. a 22, 8. am edrych na byddai iddo wnëyd y fath waith a'i addoli ef, ond mewn geiriau eglur y mae yn gorchymmyn iddo addoli Duw: ond er hyn i gyd, y mae dwyfol addoliad yn cael ei roddi i Iesu Grist; a gorchymmyn y Tad (yr hwn na orchymmynodd ddim erioed, ond oedd yn iawn) i'r holl angelion i wnëud hyny. Pan yw yn dwyn y cyntaf-anedig i'r byd, y mae yn dywedyd, Ac addoled holl angelion Duw ef, Heb. 1, 6. Ac yn yr oriau mwyaf sobr ag a fu ar Stephan erioed, wele, efe yn roddi dwyfol barch i Grist, ac yn gorchymmyn ei unig enaid iddo, Act. 7, 59. O herwydd paham, Duw a'i tra-dyrchafodd yntau, ac a roddes iddo enw, yr hwn sydd goruwch pob enw; fel yn enw Iesu y plygai pob glin, o'r nefolion, a'r daearolion, a than ddaearolion bethau; ac y cyffesai pob tafod fod Iesu Grist yn Arglwydd, er gogoniant Duw Dad, Phil. 2, 9. Iddo ef yr hwn a'n carodd ni, ac a'n golchodd ni oddiwrth ein pechodau yn ei waed ei hun, ac a'n gwnaeth ni yn freninoedd ac yn offeiriaid i Dduw, a'i Dad ef, iddo ef y byddo y gogoniant a'r gallu yn oes oesoedd. Amen, Dat. 1, 5, 6. Ac mi a edrychais, ac a glywais lais angelion lawer y'nghylch yr orsedd-fainc, a'r anifeiliaid, a'r henuriaid: a'u rhifedi hwynt oedd fyrddiynau o fyrddiynau, a miloedd o filoedd; yn dywedyd â llef uchel, Teilwng yw'r Oen, yr hwn a laddwyd, i dderbyn gallu, a chyfoeth, a doethineb, a chadernid, ac anrhydedd, a gogoniant, a bendith. A phob creadur ag sydd yn y nef, ac ar y ddaear, a than y ddaear, a'r pethau sydd yn y môr, ac oll ag sydd ynddynt, a glywais i yn dywedyd, I'r hwn sydd yn eistedd ar yr orsedd-fainc, ac i'r Oen, y byddo y fendith, a'r anrhydedd, a'r gogoniant,

Digitized by Google

'r gallu, yn oes oesoedd, Dat. 5, 11, 12, 13. Fel
yr anrhydeddai pawb y Mab, fel y maent yn an-
hydeddu y Tad. Yr hwn nid yw yn anrhyd-
eddu y Mab, nid yw yn anrhydeddu y Tad yr
awn a'i hanfonodd ef, Ioan 5, 23. Y mae gor-
uchel roddiad y gorchymmyn i addoli Crist, ac
ufudd-dod y llu nefol, yn brawf anwrthwynebol o
Dduwdod y gŵr fu ar y groes: ac er fod anfodd-
onrwydd y Tad yn fynych (fel y sylwyd) wedi
ymddangos mewn barnedigaethau trymion iawn
ar eilunod a'u haddolwyr, ymhob oes, etto ni
ddangosodd efe erioed ddim anfoddlonrwydd i
neb am addoli Iesu, hyd y nod yn y cadachau,
Mat. 2, 11. Psal. 72, 10. Ac ni ddangosodd yr
arwydd leiaf o anfoddlonrwydd i Grist am gym-
neryd ei addoli, ond i'r gwrthwyneb, mae yn
gorchymmyn iddo eistedd ar ei ddëaulaw, Psal.
110, 1. Y mae dwyfol addoliad hefyd yn cael
ei roddi i'r Ysbryd Glân. Ewch gan hyny, a
dysgwch yr holl genedloedd, gan eu bedyddio
nwy yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân,
Mat. 28, 19. Yn ddiammeu mai eilun-addol-
aeth tra ffiaidd yw bedyddio un dyn yn enw neb
ond yn enw y gwir a'r bywiol Dduw. Gan fod
bedydd yn un o'r cyflawniadau mwyaf goruchel
mewn dwyfol addoliad, trwy yr hon ordinâad yr
ydym yn cyflwyno ein hunain, a'r hyn oll a fedd-
om, i wasanaeth yr hwn y'n bedyddier yn ei enw:
ond gorchymmynir yn y lle uchod i'r ordinâad
hon gael ei gweinyddu yn enw y Mab, a'r
Ysbryd Glân, yn gystal ag yn enw y Tad; ac yn
Act. 19, 5. yr ydym yn cael fod yr ordinâad hon
yn cael ei gweinyddu yn enw yr Arglwydd Iesu.
Y mae yn anhawdd iawn deall pa fodd y gallasai
y drefn hon gael ei chysoni â'r gorchymmyn
uchod o eiddo Crist, oddieithr fod cyflawnder y

Digitized by Google

Duwdod yn preswylio yn yr Iesu hwn; etto, yn y geiriau canlynol, yr ydym yn cael ein bendithio yn enw y Tri. Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithias yr Ysbryd Glân, a fyddo gydâ chwi oll, 2 Cor. 13, 13. Yma y gwelwn fod yr Apostol, yr hwn oedd â meddwl Crist ganddo, yn dymuno fod gras ein Harglwydd Iesu, a chymdeithias yr Ysbryd Glân, gydâ yr eglwys, fel pethau o gymmaint eu pwys a chariad y Tad. A llefodd y naill o'r seraphiaid wrth y llall, ac a ddywedodd, Sant, Sant, Sant, yw Arglwydd y lluoedd, yr holl ddaear sydd lawn o'i ogoniant ef, Esa. 6, 3. Y mae yn amlwg fod y geiriau yn Dat. 4, 8. yn cyfeirio at y rhai hyn. Ni raid i mi yma sylwi dim, ond dywedyd mai y meddwl mwyaf cyffredin yw, fod adroddiad y gair Sant dair gwaith, yn amlygiad o drefn llu y nefoedd yn parchu Tad, Mab, ac Ysbryd, yn ogyfuwch y naill â'r llall: y mae yn eglur wrth gydmaru yr adnod hon â'r 9fed adnod o'r un bennod, mai yr un sydd yn cael ei addoli yma gan y seraphiaid ag sydd wedi anfon y proffwyd at dŷ Israel; ac y mae Paul, fel y sylwyd yn barod, yn haeru mai yr Ysbryd Glân wnaeth hyny, Act. 28, 25, 26. Gan hyny mae yn amlwg fod yr Ysbryd Glân yn cael ei addoli, gan lu y nefoedd, dan yr enw Arglwydd y lluoedd. Dywed yr hen wr, Simeon, Arglwydd, yr awr hon y gollyngi dy was mewn tangnefedd yn ol dy air: canys fy llygaid a welsant dy Iechydwriaeth. Gair yr Ysbryd Glân, mae efe yma yn sôn am dano; canys yr Ysbryd Glân oedd wedi hysbysu iddo na welai efe angeu, cyn iddo weled Crist yr Arglwydd, Luc 2, 26, 28, 30. Gan hyny mae yr Ysbryd Glân yn cael ei gydnabod yn y lle hwn, fel gwr âg awdurdod ganddo i ollwng y saint i mewn

Digitized by Google

i wynfyd tragywyddol. A'r Arglwydd a gyfarwyddo eich calonau chwi at gariad Duw, ac i ymaros am Grist, 2 Thes. 3, 5. Yna y bydd yr holl niwl a'r tywyllwch wedi ei wasgaru, a lleni y nos wedi cilio draw, a'r olwg arno wrth olea dydd tragywyddol, wedi peri i'r ddadl ddarfod am ddwyfoldeb ei berson. Fel hyn yr wyf yn cael llyfr Duw yn priodoli yr enwau, y perffeithiadau, y gwaith, a'r addoliad perthynol i Dduw yn unig, i'r Mab, ac i'r Ysbryd Glân. Ac nid wyf yn meddwl ei fod yn ormod i ddywedyd fod yr ysgrythyrau a enwyd, y'nghyd â llawer ereill, nid yn gasgliadol ddangos, ond yn union-gyrch brofi hanfodol Dduwdod y Mab a'r Ysbryd Glân; gan na ellir dywedyd y fath bethau am un creadur, ag a ddywed gair Duw am danynt hwy, na phriodoli y fath bethau i un o'r creaduriaid, heb fod yn euog o'r eilun-addoliad gwaethaf, a'r cabledd mwyaf haerllug a ddaeth o enau un dyn erioed. Yma gallwn ychwanegu ein bod wedi cael amlygiad gogoneddus iawn o'r tri pherson dwyfol, pan bedyddiwyd ein Harglwydd Iesu Grist yn yr Iorddonen, Mat. 3, 16, 17. A'r Iesu, wedi ei fedyddio, a aeth yn y fan i fynu o'r dwfr: ac wele y nefoedd a agorwyd iddo, ac efe a welodd Ysbryd Duw yn disgyn fel colomen, (neu fel y disgynai colomen) ac yn dyfod arno ef; ac wele, lef o'r nefoedd, yn dywedyd, Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd. Yma yr ydym yn cael yr athrawiaeth yn amlwg—y Mab yn dyfod i fynu o'r dwfr, a'r Ysbryd Glân ar lun colomen yn dyfod, ac yn disgyn arno, a'r Tad ar yr un pryd, yn y nef, yn dwyn tystiolaeth iddo: etto yr ydym yn cael y cyflelyb amlygiad o'r Tad a'r Mab yn ngwedd-newidiad Crist ar y mynydd. Y mae yr hanes yn cael

Digitized by Google

ei rhoddi gan dri o'r efengylwyr, a chan Pedr yn y geiriau canlynol; Canys nid gan ddilyn chwedlau cyfrwys, yr hysbysasom i chwi nerth a dyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist; eithr wedi gweled ei fawredd ef â'n llygaid, canys efe a dderbyniodd gan Dduw Dad, barch a gogoniant, pan ddaeth y cyfryw lef ato oddiwrth y mawr-ragorol Ogoniant, Hwn yw fy anwyl Fab i, yn yr hwn y'm boddlonwyd. A'r llef yma, yr hon a ddaeth o'r nef, a glywsom ni, pan oeddym gydâg ef yn y mynydd santaidd. Yna, wedi dywedyd mor amlwg am y Tad a'r Mab, y mae yr Apostol yn mynêd rhagddo i lefaru am yr Ysbryd Glân. Ac y mae genym air sicrach y proffwydi, yr hwn da y gwnewch fod yn dal arno, megis ar ganwyll yn llewyrchu mewn lle tywyll, hyd oni wawrio y dydd, ac oni chodo y seren ddydd yn eich calonau chwi: gan wybod hyn yn gyntaf, nad oes un broffwydoliaeth o'r ysgrythyr o ddeongliad priod. Canys nid trwy ewyllys dyn y daeth gynt broffwydoliaeth: eithr dynion santaidd Duw a lefarasant megis y cynnyrfwyd hwy gan yr Ysbryd Glân, 2 Pedr 1, 16—21. Yn awr, mi feddyliwn pwy bynag a ddarlleno yr ysgrythyrau a sylwyd arnynt, a'u hystyried yn bwyllog a diragfarn, y gwel efe fod yr athrawiaeth y sylwais arni dan y penau cyffredinol uchod yn un eglur a diammheuol y'ngair Duw: sef, 1. Nad oes ond un Jehofa anfeidrol. 2. Fod lluosogrwydd yn yr un Jehofa hwn. 3. Fod y lluosogrwydd hwnw yn cael ei gyfyngu i'r rhif tri. 4. Mai nid lluosogrwydd o enwau neu swyddau yw y rhai hyn, ond personau yn gwnëyd i fynu un hanfod tragywyddol. 5. Fod goruchel ac hanfodol ddwyfoldeb a angenrheidrwydd yn perthyn i'r Mab a'r Ysbryd Glân, yn yr un modd ag y mae yn per-

Digitized by Google

hynu i'r Tad. Nid yw hyn dim ond yr hyn a ddatguddiodd efe ei hun, gan hyny nid yw ddim ond yr hyn a ddylem ni ei gredu, ïe, y mae yn ddyledswydd arnom, ac o ganlyniad yn rhwymau, i gredu yr hyn oll a lefarodd yr Arglwydd. Os bydd i ni ystyried nad yw efe wedi lefaru dim wrthym i'r dyben i ni i'w ammeu a'i anghredu, a thrwy hyny daflu celwydd yn ei wyneb, ond ymddarostwng wnaeth o'i ras i lefaru wrthym am y dirgeledigaethau nas gallasem byth eu gwybod mewn un ffordd arall, fel y byddai i ni barchu a chredu ei dystiolaeth ef; ac os bydd i ni gofio mai yr hwn na all ddywedyd dim ond y gwirionedd, sydd wedi trosglwyddo y datguddiad hwn i ni, y mae yn deilwng i ofyn, Pa fodd y diangwn am wrthod ei dystiolaeth ef am dano ei hun? Ond pa fodd y mae y lluosogrwydd hwn yn bod yn yr un Jehofa anfeidrol, a pha fodd y mae y tri hyn yn un, ni ddatguddiodd efe hyn i ni, am hyny nid oes galwad i ni gredu hyny; a pheth sydd a wnelom â phethau Duw y'mhellach nâg y mae y gair yn ein dysgu ynddynt; ond er hyn gall rhyw un (os nid llawer) fod yn barod i ddywedyd, Nid wyf yn dyall nac yn amgyffred y fath athrawiaeth a hon. Fy nghyfaill, beth all fod yma nad wyt ti yn ei ddyall; yr wyf yn symyl farnu fod gair y gwirionedd hob un dyryswch, na'r anhawsdra lleiaf yn profi yr hyn a roddwyd ger dy fron; ond os meddwl yr wyt nad ydwyt yn dyall pa fodd y mae un yn dri, a thri yn un, yr wyf yn barod i gyfaddef nad wyf finnau chwaith yn dyall hyny, ac nad oes eisiau i mi ei ddyall, am nad yw wedi ei ddatguddio y'ngair Duw. Yma gallwn sylwi fod yn anmhosibl i ni wybod dim yn iawn am Dduw, ond yr hyn mae efe ei hun wedi ei ddatguddio i ni; ond y mae yn ddyled-

Digitized by Google

swydd arnom i gredu yr hyn oll mae efe wedi ei lefaru, er ein cysur a'n dyddanwch yn y byd sydd yr awr hon: ond mewn perthynas i athrawiaeth y drindod, y'nghyd a llawer o bethau ereill a gynnwysir yn y gair, y cwbl ag sydd ynddynt heb gael ei ddadguddio gan yr Ysbryd Glân y'ngair Duw, rhaid iddo aros yn ddirgelwch na allwn ni dreiddio iddo yn y byd hwn; ac yn wir, ffolineb fyddai i ni amcanu dyall mwy o bethau Duw nag mae y gair yn ein dysgu ynddo. Os bydd i neb feddwl ei fod yn rhydd i beidio credu tystiolaeth llyfr Duw am ryw beth, hyd nes byddo yn gallu dyall ac amgyffred pa fodd y mae y peth hwnw yn bod, gwybydded y cyfryw fod y fath ymddygiad, mewn effaith, yn dywedyd ei fod efe yn meddwl ei fod yn *rhydd* i beidio credu yr hyn mae Duw wedi ei lefaru, nes byddo yn medru dyall yr hyn nad yw efe wedi llefaru gair am dano erioed. Y mae hyn yn ddiammeu yn gymmysgedd o'r tywyllwch a'r anwybodaeth mwyaf, oblegid y blaenaf sydd ddyledswydd arbenig arnom, ond yr olaf nid oes i ni ddim a wnelom âg ef. Etto, os yw dyn yn rhydd i beidio credu un peth nes byddo yn dyall pa fodd a pha ham y mae felly, yna bydd yn rhaid i'r cyfryw ddyn fod yn un o'r anghredinwyr o'r fath waethaf yn y byd hwn; canys beth ydym yn ei ddyall yn berffaith o'r holl bethau sydd yn y nefoedd uwch ein penau, neu ar y ddaear dan ein traed, neu ymhlith y lluoedd dirifedi o greaduriaid sydd o'n hamgylch, pa un bynag ai rhai byw ai rhai meirw, ac oddiyno i ni ein hunain, ein cyrff a'n heneidiau, a'r cyfreithiau dirgelaidd, wrth ba rai mae y corff a'r enaid yn rhwym y naill i'r llall, a pha fodd y mae pridd ac ysbryd yn effeithio ar eu gilydd. Dyma bethau

raid i ni gyfaddef nad ydym yn medru dyall ond chydig o honynt etto. Yr wyf yn gweled, yn lywed, yn archwaethu, yn aroglu, ac yn teimlo, a fodd y mae y synwyr o deimlo gymmaint yn wy cywrain yn mlaen fy mysedd nâg mewn un ran arall o'm corff? Nid yw y pethau hyn wedi iel ei dyall pa fodd y maent i ddigon o fodd- nrwydd; etto, gan fod tystiolaeth yn fy myn- es fy mod yn gwnëyd hyn, a phrofiad genyf ai gwir yw, yr wyf yn credu fy mod yn gwnëyd yn, er nas gwn pa fodd y mae llawer o bethau n cymmeryd lle; a thra yr wyf fel hyn yn methu yall y creaduriaid meidrol, ïe, ac yn methu fy mgyffred fy hun, pa fodd yr wyf yn gorff, enaid, c ysbryd, fel hyn yn dri, etto yr wyf yn credu y mod felly, o blegid fod gair Duw yn dywedyd yny, 1 Thes. 5, 23. Gan hyny ont raid ei fod n ynfydrwydd o'r mwyaf i mi beidio credu fod Duw yn Dad, Mab, ac Ysbryd, am fy mod yn nethu dyall pa fodd y mae felly. Nid yw Duw yn eisio genym yn hyn ond ymddwyn tuag ato ef el ag yr ydym yn ymddwyn at bethau ereill, sef credu eu bod fel y maent, er nad ydym ni yn allu amgyffred pa fodd y maent felly: hyn y nae Duw yn geisio genym, sef credu yr hyn a lystiolaethodd efe yn ei air am dano ei hun; ac nid ceisio dyall ac amgyffred yr hyn na ddy- wedodd ef air erioed am dano. Cofiwn, gan hyny, er na allwn ni ddim dyall pa fodd y mae yr nfeidrol un yn dri, a'r tri yn un, ein dyledswydd ni yw credu ei fod felly, am fod y Duw geir- wir, yr hwn sydd yn adnabod ei hun yn ber- faith, wedi dywedyd hyny wrthym yn ei air; canys fe ryngodd bodd i Dad y goleuni roddi lesgrifiad o hono ei hun i ni yn ei air, a'r des- grifiad hwnw yn cynnwys cymmaint o ddatgudd-

Digitized by Google

iad o hono ag sydd angenrheidiol i ni ei gael, a'i gredu yn y bywyd hwn: o ganlyniad, peidio credu y dystiolaeth a dystiolaethodd Duw am ei Fab, fydd yn ddamniol bechod yn wyneb dydd a ddaw. O frodyr! pa ryfeddod yw, fod ein dyall ni yn rhy fyr i amgyffred pa fodd y mae Bôd anfeidrol yr hyn ag ydyw, gan na allwn ddim ein dyall ein hunain. Nid ydym yn medru dyall, fel y sylwyd, pa fodd mae ein heneidiau mewn undeb â'n cyrff, nac yn iawn pa le y mae yn y corff: pa fodd y mae y llaw, y llygad, y clust, a'r ffroenau yn rhoddi gwybodaeth o'r hyn maent yn deimlo, yn weled, yn glywed, a'i archwaethu, ar darawiad amrant i ystafell y synwyr yn yr ymennydd, a pha fodd mae barn yn cael ei rhoddi yno mor fuan ar bethau, a pha fodd y mae y gwaed yn llifo i'r lan i'r pen, pan mae tuedd y fath bethau i redeg i waered, ac nid i'r lan. Yn ddiau yr ydym yn lled fyr o ddyall hyn i'r graddau eithaf. Gallwn yma sylwi, fod llyfr natur â dirgelwch ynddo tu hwnt i'n hamgyffred ni; etto, nid ydym ddim yn meddwl gwadu natur am nad ydym yn medru dyall ei llyfr trwyddo; nac ydym, ond credu yr hyn sydd amlwg, a duwiol ryfeddu mawredd ei hawdwr. Och! a wadaf Dduw, am nad wyf yn gallu ei ddarllen ef i gyd yn ei lyfr? na wnaf, ond rhyfeddaf mor lleied wyf yn ddyall o hono. Mae llawer hefyd y'mhlith y rhai nad yw yn gwadu yr athrawiaeth hon, yn meddwl ei bod y fath ddirgelwch, fel nad yw ond dyrysu meddyliau dynion, (yn enwedig y rhai gwan, fel y dywedant), fel mai gorau pa leiaf a ddywedir neu a sonir am dani; ond yn sicr y mae hyn yn llawer o gamsyniad, oblegid beth all fod yn ddirgelwch, yn ddyryslyd, neu yn dywyll, yn yr hyn a geisir genym ei gredu. Nid

Digitized by Google

rw ddim ond credu y dystiolaeth noeth a dystiol-
ıethodd y gwirionedd am dano ei hun. Gwareder
ıi rhag meddwl fod dim ag mae efe wedi lefaru yn
ldyryslyd ac yn dywyll; ynom ni y mae y dyrys-
wch a'r tywyllwch; ond rhaid cyfaddef fod cym-
neryd ein rhesymau ein hunain yn lle gair Duw,
ıc amcanu mesur moroedd diwaelod â llinynau
nor fyred a'n rhesymau cnawdol ni, wedi bod yn
ıchos o lawer o gyfeiliornadau dinystriol: a thra
›yddom yn gwneyd fel hyn, nid yw ddim rhy-
eddod ein bod yn aros yn y tywyllwch; ond
›ydded i ni fyned heb ddim oud tystiolaeth llyfr
Duw, yna bydd i'r athrawiaeth hon yn ymddangos
'n dra eglur a gogoneddus. Yn mhellach, gallwn
ylwi fod yr athrawiaeth hon yn deilwng o'n
ıystyriaethau mwyaf goruchel, a'n meddyliau
nwyaf pwyllog a difrifol; oblegid mae y gwir-
onedd hwn o'r pwys mwyaf i bawb sydd yn
neddwl byw yn y nefoedd; os bydd i'r athraw-
aeth hon gael ei gwadu, gellir dysgwyl y bydd
Dduwdod Crist gael ei wadu hefyd. Yr wyf
'n ystyried fod rhai yn gwadu lluosogrwydd yn
'r hanfod dwyfol, ac yn cyfaddef Duwdod Crist;
ınd gofynaf, a raid dim i'r cyfryw rai wadu y
Tad neu y Mab? ac ni byddai yn fawr gwaeth
ddynt i wadu y cyfammod tragywyddol; canys pa
›dd y gall fod, onid yw yr athrawiaeth uchod
'n wir? ac am y gwirionedd pwysig o iawn Crist,
rwy yr hyn a wnaeth yn ei fywyd a'i farwol-
eth: bydd i hyn syrthio yn yr heol, neu o leiaf
ıewn perygl o gael hyny, ar y dydd ag y byddo
r athrawiaeth a sylwasom arni gael ei gwrthod
'nghadair yr ymadrodd. Mewn gair, y mae yr
thrawiaeth hon mor gyd-blethedig â holl wir-
›neddau yr efengyl, fel pa le bynag y syrthio
n o honynt, bydd y lleill mewn mawr berygl. Yr

Digitized by Google

oedd un yn dywedyd ei fod efe yn wastad yn dwy
gydâg ef brofiad o wirionedd yr athrawiaeth
fod y tri yn un yn holl-bresennol; etto rhaid cyfadd
ef nad yw hyn yn brofiad cristianogion gwanaidd
ond yn hytrach yn eiddo tadau yn Nghrist; e
hyny mae yn anhawdd dyall pa fodd y gall ne
fod yn wir gristion, heb fôd ganddo y dystiol
aeth hon ynddo ei hun, sef Ysbryd Duw yn cyd
dystiolaethu â'i ysbryd ef, ei fod ef yn blenty
i Dduw, Rhuf. 8, 16. 1 Ioan 5, 10. Hyny yw
fod yr Ysbryd Glân yn yr enaid yn dwyn tys
iolaeth fod Duw Dad wedi ei dderbyn ef trw
y Mab, ac os bydd hyn ganddo, fe fydd idd
anrhydeddu y Mab a'r Ysbryd Glân fel y ma
yn anrhydeddu y Tad; gan hyny fy mrodyr
bydded i ni ymdrechu am gael ein sefydlu yn y
gwirionedd hwn; a llefwn a'r Wrandawwr gwedd
am fod ein cyflyrau yn wastad dan effeithia
priodol y gwirionedd, fel y gallom yn brofiado
ddywedyd yr adwaenom ni ras ein Harglwydd
Iesu Grist, cariad y Tad, a chymdeithas y
Ysbryd Glân. Yna bydd i ni ddywedyd gyd
Dafydd, Psal. 27; 1. Yr Arglwydd yw *fy ngo*
leuni a'm iechydwriaeth; rhag pwy yr otnaf
yr Arglwydd yw nerth fy mywyd; rhag pw
y dychrynaf? Oddiwrth yr hyn a ddywedwyd
gallwn yn ddigon naturiol wnëyd y sylwada
canylnol:—

1. Mai camsyniad mawr yw dywedyd fod
athrawiaeth hon yn dywyll a disail. Pa fodd
gall hi fod felly pan mae y goleuni ei hun, 1 Ioa
1, 5. wedi dywedyd cymmaint wrthym ni am da
yn ei air; a pha fodd y gall neb anturio dywedy
fod y fath athrawiaeth yn ddisail, pan mae Du
y gwirionedd wedi ymddarostwng i amlygu

Digitized by Google

an i ni yn y drefn hon, pe na buasai ond un gair edi ei lefaru ganddo i brofi y gwirionedd hwn, nasai yn ddyledswydd arnom i dderbyn y gair nnw gydâ y groesaw mwyaf, heb arameu dim, gan ai gair oddiwrtho ef ydoedd: ond wele ef wedi efaru yn aml ac yn eglur ar y pwnc hwn, fel os yddai i'n gwrthwynebwyr (yn ol eu harfer) edu nad yw amryw o'r testynau yn y Groeg ag eawir i ei phrofi, ni byddai i'r athrawiaeth hon rthio i'r llawr wrth hyny. Gan ei bod yn rhedeg wy yr holl ddwfol wirionedd, rhaid i'r cyfryw adu rhagor etto (os da fydd hyny iddynt) cyn allont ddi-arddelu yr athrawiaeth hon; oblegid d oes dim ond derchafu rheswm cnawdol yn lle stiolaeth gair Duw, a all beri i ni amcanu nmeu gwirionedd mor amlwg.

2. Y mae yn amlwg fod arnom rwymau i gre- u a pharchu yr athrawiaeth hon, oblegid fod luw wedi ei rhoddi hi ar lawr yn ei air; nid dym yn rhydd i gredu, neu i beidio credu yr yn y mae ef yn lefaru wrthym, ond yr ydym dan eilldnol rwymau i gredu yr hyn oll a ddywed- dd ef; ïe, y mae pawb nad yw yn credu ei ystiolaeth ef, yn rhoddi y celwydd yn ngwyneb i fawredd, ac o ganlyniad, yn agored i ddam- edigaeth dragywyddol. Y mae y ddedryd ofn- dwy hon yn gorwedd yn awr ar bawb nad yw n credu, Ioan 3, 36; onid yw yn ychydig hyfeddod, y gall fod neb yn credu Mab Duw, ac n credu ynddo, ac ar yr un pryd yn gwadu yr yn sydd wedi cael ei lefaru ganddo mor fynych c mor eglur yn yr efengyl; onid oes achos ofni od y fath broffes yn lled wag a disail? o her- rydd pa fodd y gall rhyw un ddywedyd, ei fod f yn credu gair Duw, ac ar yr un pryd yn gwadu

Digitized by Google

tystiolaeth y gair, am y gwirhrych uchelaf
glywyd sôn erioed am dano? ïe, pa fodd y dich
neb ddywedyd ei fod yn credu y gair ac yn
barchu, etto ar yr un pryd yn ymdrechu
wrthbrofi llawer o hono, neu ryw beth tebyg
hyny?

3. Mae yn angenrheidiol i ni gredu y gwi
ionedd hwn; oblegid fod peidio ei gredu,
dywedyd yn ei erbyn, yn ymosodiad ar wneuth
Duw yn gelwyddog; ïe, yr hwn nid yw y
credu i Dduw a'i gwnaeth ef yn gelwyddo
oblegid na chredodd y dystiolaeth a dystiolaeth
odd Duw am ei Fab, 1 Ioan 5, 10; a chan fod
Tad wedi tystiolaethu fod y Mab yn Dduw,
orsedd-fainc yn oes oesoedd, Heb. 1, 8. ni
gallwn byth gredu tystiolaeth y nefoedd h
gredu hyn. Nid Duw i ni yw Iesu Grist fel
oedd Moses yn dduw i Aaron, Exod. 4, 16.
mae rhai yn breuddwydio: ac ni ddywedir y
fod Moses yn dduw i Aaron, ond yn lle Duw
am mai efe oedd yn dwyn geiriau yr Arglwyd
iddo ef. Mae yn wir y dywedir (Exod. 7,
fod Moses yn dduw i Pharaoh; hyny oeddy
ei wneud mor fawr yn ngolwg y brenin, fel m
am dano ef y byddai iddo anfon yn ei gyfyngd
yn lle Duw; ond nid oes gorchymmyn i neb
addoli Moses; ac y mae yn ddiammeu pe buas
ef, neu yr angel uchaf yn y nef yn cymmeryd
fath beth, buasai hyny yn ddamniol beche
yddo: ond wele orchymmyn i holl angeli
Duw i addoli ein Iesu ni, Heb. 1, 6; ac y m
genym dystiolaeth llyfr Duw, y bydd i bob gl
blygu, o'r nefolion, a'r daearolion, a than-ddae
olion bethau, yn enw Iesu; ac y bydd i bob ta
gyffesu, fod Iesu Grist yn Arglwydd, er gogo
iant Duw Dad, Phil. 2, 10, 11.

Digitized by Google

4. Braint fawr i ni oedd cael y datguddiad hwn Dduw, gan na allwn ni wybod dim yn iawn am ano, ond yr hyn fyddo ef yn ei ddatguddio yn ei ir am dano ei hun; am hyny, fy nghyfaill, oni hredi di yr hyn a lefarodd ef yn ngair y gwir- nedd am dano ei hun, hyd hes byddo i ti ddeall c amgyffred pa fodd y mae ef yr hyn ag ydyw, haid i ti fod yn atheist am byth; canys ni elli i byth, yr hwn nad wyt ond creadur meidrol, deall ac amgyffred anfeidroldeb i'r graddau y iae. Gan hyny bydded i ti a minnau lefain am i i gael grym i orwedd yn ddïysgog ar y dystiol- eth mae ef wedi roddi o hono ei hun, hyd oni yddo yr holl dywyllwch dudew sydd ynom yn wr, yn gorfod ffoi o flaen y dydd tragywyddol, an cyfarfyddo holl waredigion Iesu yn yr un lle, r yr un ddelw, yr un enw, a'r un feddwl, ac o un alon, ac un genau, heb neb byth yn tynu yn roes, ond pawb yn cydwaeddi, Teilwng yw yr)en a laddwyd i derbyn y gogoniant yn oes oes- edd. Amen.

Digitized by Google

Digitized by Google

HYMN I.

Dacw allor, dacw àberth,
Ac Offeiriad 'nawr yn un;
Dacw'r Duwdod mawr anfeidrol
Yn preswylio yn y dyn;
Dacw'r ddeddf yn gofyn taliad;
Dacw iddi daliad llawn;
Dacw heddwch i'r gelynion,
Rhwng y lladron un prydnawn.

2.

Dacw'r nefoedd wedi duo;
Dacw uffern yn ei grym;
Dacw'r holl ellyllon duon
Yn wynebu pen y bryn;
Dacw'r cleddyf wedi deffro;
Dacw'r Meichiau ar y pren;
Dacw fwy nâ'r nef ei hunan
Ar y groes yn plygu ei ben.

Digitized by Google

3.

Dacw'r bywyd wedi marw;
Dacw'r ëang fôr yn sych;
Dacw degwch nef a daear
Ar y groes yn sael ei ddrych;
Dacw ffynon y ffynonau
Wedi dyoddef syched mawr;
Dacw gyfoeth pob tysorau
Wedi d'od heb ddim yn awr.

4.

Dacw'r frwydyr wedi ei hennill,
Er mor dwymed oedd y dydd;
Dacw'r nef a'r dda'r yn canu—
Uffern wedi ei siomi sydd;
Dacw filoedd o filiwnau
O delynau yn gytun,
Yn d'od o bedwar gwynt y nefoedd
I foliannu Mab y dyn.

Digitized by Google

HYMN II.

Pwy galon! pwy dafod! pwy ddawn!
All osod yn gyflawn i maes,
Drysorau fy Arglwydd yn llawn,
A rhinwedd anfeidrol ei ras!
Angelion Seraphaidd y nef
Ni fedrant fath orchwyl yn llawn,
A dynion rifedi y sêr
Ni feddant ar ddigon o ddawn.

2.

Bellafoedd uwch deall un dyn,
Na'r lleoedd sy'n aros uwch ben,
Yw'r Person anfeidrol a fu
Yn dyoddef rhwng lladron ar bren;
Ei ogoniant felldenodd i maes,
Fel haulwen yn nghanol y nef;
A rhyddid i'r caethion a gaed,
Trwy'r goncwest ennillodd efe.

Digitized by Google

3.

Nid canu am Galfari wnaf,
Am hoelion, na chwaith am y groes ;
Ond canu i'r Person a fu
Rhwng lladron yn dyodde'r fath loes ;
Bydd tyrfa rifedi y gwlith
Yn moli dros byth yn y nef ;
A'u cydsain yn gwbl gydun,
Yn gwaeddi mai teilwng yw *Ef*.

DIWEDD.

Argraffwyd gan J. Evans, Caerfyrddin.

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google